

# Y DINESYDD

Mai 2021 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 458 £1.20





Megan



Harri

**Brawd a chwaer yn llwyddo ar y llethrau - tud. 17**



Rhodri Jones ac Alex Ferguson

**A chyn-bêl-droediwr yn *Meddwl am Man U* tud. 3**

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Ioan Kidd**

***Golygydd Mehefin***
***Hefin Mathias***

Cyfraniadau erbyn 27 Mai i:
hefinmathias@hotmail.co.uk
13, Heol Don, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 2AR
029 20311340

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## GŴYL Y GELLI A'R RHAGLEN AM DDIM I YSGOLION

Mae Gŵyl y Gelli wedi cyhoeddi ei Rhaglen am ddim i Ysgolion ar gyfer y gwanwyn. Mae'n dod ag awduron a phobl ifanc at ei gilydd ar-lein am gyfres o weithgareddau a gweithdai rhyngweithiol ysbrydoledig, rhwng 24 a 28 Mai 2021, cyn y brif raglen a fydd yn cael ei chynnal o 26 Mai tan 6 Mehefin.

Gall rhieni, athrawon a phobl ifanc gofrestru ar gyfer y sesiynau am ddim nawr yn: hayfestival.org/schools

Caiff pum sesiwn eu darlledu'n ddyddiol i ddisgyblion ar draws CA1-4. Bydd deunyddiau addysgu a gweithgareddau dysgu gweithredol am ddim yn cyd-fynd â phob digwyddiad, a fydd ar gael i'w weld yn fyw neu drwy ailddarllediad ar hyd yr amser, ynghyd ag archif lawn Rhaglen Ysgolion yr Ŵyl. Bydd capsiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar gyfer pob digwyddiad, ac fe'u cyflwynir gan naill ai'r bardd o Gymru Anni Llŷn neu'r awdur a'r cyflwynydd Radzi Chinyanganya.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r Ŵyl hefyd wedi rhyddhau dau weithdy digidol Prosiect y Bannau ar gyfer egin awduron 16-18 oed yn: hayfestival.org/beacons-project, sy'n cynnwys dau o fawrion y byd creadigol. Bydd Jack Thorne, yr awdur sgrin a dramodwr *Harry Potter and the Cursed Child*, yn trafod ei addasiad o gyfres o dair nofel Phillip Pullman, sef *His Dark Materials*, a gynhyrchwyd gan Bad Wolf a Chynghrair Sgrin Cymru, tra bydd y bardd, yr awdur a'r dramodwr mawr ei glod o Gymru, Owen Sheers, yn arwain y myfyrwyr trwy weithdy ysgrifennu creadigol wedi'i ysbrydoli gan dirwedd Cymru.



### Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL,** 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd,, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, 37 Arcêd y Castell
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina


## Gorfoledd a Thor Calon Pêl-droediwr Proffesiynol

Mewn llyfr newydd o'r enw *Meddwl am Man U* mae'r cyn-bêl-droediwr Rhodri Jones yn datgelu hanesion rhyfeddol am gyrraedd yr uchelfannau ynghyd â'r gwaelodion tywyll yn sgil cael ei arwyddo gan un o glybiau mwyaf y byd.

Dechreuodd Rhodri ei yrfa fel pêl-droediwr proffesiynol ifanc yn Manchester United rhwng 1996 a 2000, yn ystod un o'r cyfnodau mwyaf llwyddiannus yn hanes y clwb. Yn y gyfrol, trafodir y pwysau a roddwyd ar chwaraewyr ifanc a'r ymroddiad a'r ddisgyblaeth oedd yn ddisgwyliedig mewn ymarferion hyfforddi, gemau, twrnameintiau a hyd yn oed oddi ar y cae. Sonnir hefyd am y partïon ac am rai o sêr y byd pêl-droed ar y pryd – Giggs, Scholes, Beckham, Roy Keane, Teddy Sheringham ac Alex Ferguson. Yn llifo drwy'r cwbl, mae stori bersonol Rhodri oedd ar dân eisiau chwarae yn nhîm cyntaf Man U, y tîm a gefnogodd er pan oedd yn blentyn, a'r rhwystrau a wynebodd wrth geisio cyflawni hynny.

Mae Rhodri'n siarad yn onest am yr heriau corfforol a meddyliol y mae wedi eu hwynebu. Sonia hefyd am y siwrne y mae wedi bod arni i ddeall sut mae'r meddwl yn gweithio a sut mae wedi mynd ati i ddatblygu ei ffitrwydd seicolegol.

Dywedodd Rhodri am y broses o sgwennu'r gyfrol: 'Yn 2019 bu farw'r sgowt oedd yn gyfrifol am roi'r cyfle i mi yn Manchester United. Yn yr angladd, gwelais rai o fy nghyn-hyfforddwyr a ddylanwadodd ar fy ngyrfa, gan gynnwys Syr Alex Ferguson, rheolwr tîm cyntaf y clwb tra ro'n i yno. Daeth yr atgofion i'r wyneb eto wrth weld yr holl wynebau cyfarwydd. Gadewais yr angladd gyda chymysgedd o deimladau – euogrwydd am fethu gwobrwyo'r ffydd ddangosodd y sgowt ynof i, ond hefyd gyda hedyn y syniad o ysgrifennu llyfr wedi ei blannu yn fy mhen. Mae'r broses o ysgrifennu'r llyfr wedi bod yn un o fwynhad ar y cyfan, ac yn aml dwi wedi ymgolli yn y broses o ysgrifennu. Mae'r geiriau fel petaent yn ysgrifennu eu hunain ar adegau – heb os maent wedi ffurfio yn yr isymwybod dros y blynyddoedd.'




*Un o Gaerdydd yw Rhodri. Wedi arwyddo i Man-U, ymunodd â Rotherham ac wedi cyfnodau o chwarae'n lled broffesiynol yn Uwch Gynghrair Cymru gyda Chwmbrân a Chaerfyrddin, bu'n rhaid iddo ymddeol o bêl-droed yn sgil problemau gyda'i ben-glin. Roedd Rhodri hefyd yn wynebu heriau meddyliol a effeithiodd ar ei yrfa bêl-droed. Mae bellach yn gyfarwyddwr teledu a hyfforddwr ffitrwydd meddyliol.*

**Mae *Meddwl am Man U* gan Rhodri Jones ar gael nawr (£9.99, Y Lolfa).**

## Cyfarfod Blynyddol y *Dinesydd*

Cynhelir hwn ar Zoom am 7.00 o'r gloch nos Iau, 17 Mehefin. Croeso i chi ymuno â ni. Cewch gyfle i glywed ychydig am hynt eich papur bro yn ystod blwyddyn ryfedd, a chyfle hefyd i fynegi barn ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chynnal y papur.

Ie, 'rhyfedd' yw'r gair i ddisgrifio'r flwyddyn 2020-2021 yn hanes y *Dinesydd* ond fe lwyddwyd i gyhoeddi rhifyn ym mhob un o'r deg mis arferol – a rhifyn ychwanegol ym mis Awst! Llwyddwyd i gynnal y safon o ran cynnwys a diwyg ac fe ddosbarthwyd copïau digidol, yn rhad ac am ddim, i bob cwr o'r wlad a thu hwnt. Cafwyd un ymateb o Efrog Newydd! Yn ogystal â hyn, dosbarthwyd copïau caled, eto yn rhad ac am ddim, i nifer o'n darllenwyr oedd heb yr adnoddau digidol. Cafwyd ymateb gwerthfawrogol iawn.

Roedd hyn i gyd yn bosibl oherwydd rhoddion hael gan nifer fawr o'n darllenwyr a rhai sefydliadau. Mae diolch mawr yn ddyledus hefyd i gyfranwyr yr erthyglau diddorol, i'r golygyddion am eu gwaith trylwyr ac i Eirian Dafydd, ein cysodydd, am ei gwaith hynod o grefftus.

**Ym mis Mehefin bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd presennol yn ymddeol o'u swyddi. Yn y Cyfarfod Blynyddol, felly, bydd angen ethol rhywun newydd i'r ddwy swydd.** Os oes diddordeb gennych chi i gymryd rhan yng ngwaith y *Dinesydd*, neu os gwyddoch am rywun y gallem ofyn iddyn nhw, yna byddem yn falch iawn o glywed oddi wrthoch chi. [Rhifau cyswllt ar dudalen 2 neu bryan.val.james@gmail.com / 07800 768059]

*Bryan James*
(Cadeirydd)

# Colofn G.R.



## *Meddyliau Mai*

Fel dywed hen fadrigal "Daeth eto Fis y Blodau/Yr heulwen a'r cawodau" er gobeithio y cawn fwy o heulwen na chawodau i godi'n calonnau ar ôl misoedd lawer o fod dan gysgod y firws sy wedi cyfyngu ar ein bywydau am gyhyd o amser!

Hefyd mis Mai ydy mis geni'r bardd Eifion Wyn sy'n gorffen ei delyneg i fis Mai gyda'r pennill "Gwn ei ddyfod fis y mêl/Gyda'i firi, gyda'i flodau/Gyda dydd fy ngeni innau/Gwyn fy myd bob tro y dêl".

Methais i â dathlu fy mhen-blwydd yn deilwng eleni oherwydd yr haint ond derbyniais i anrheg gan ffrind i mi a roddodd wên ar fy wyneb sef nofel o'r enw *Johnny, Alpen a Fi* gan Dafydd Llewelyn, ond fel dywed y bardd T H Parry Williams "Nid yw pawb yn gwirioni'r un fath" a felly wn i ddim beth fyddai barn llawer o ddarllenwyr y golofn hon am y nofel! Teimlaf fy mod i'n dipyn o ddeinosor weithiau wrth gael cip ar y rhaglen Stand Up *"Live at the Apollo"* a gweld llond theatr yn glannau chwerthin a minnau yn methu codi gwên hyd yn oed! Yr hyn sy'n peri i mi chwerthin ydy gwylio rhaglenni megis *"Teulu'r Mans", "C'mon Midfffîld", "Sargeant Bilko", "Dad's Army", "Mr Bean"* a hyd yn oed y rhaglen *"Mrs Brown's Boys"*! Hefyd mae hiwmor y digrifwyr Ifan Gruffudd a Ffarmwr Ffowc yn apelio ac wrth gwrs hiwmor pobl fel y diweddar Ryan Davies, Charles Williams, a Gari Williams.

Byddaf yn hoffi gwylio rhaglenni dogfen ar y teledu ac ychydig amser yn ôl dangoswyd rhaglen a gododd arswyd arnaf sef rhaglen a gyflwynwyd gan Ben Fogle pan ymwelodd â dinas Chernobyl ddeng mlynedd ar hugain ers y ffrwydrad dychrynllyd yn yr Orsaf Atomig yno a chwalodd y ddinas a gorfodi holl drigolion y lle i ffoi am eu bywydau. Hyd heddiw mae'r lle yn anghyfannedd â neb yn cael dychwelyd i fyw yno. Wrth wylio'r lluniau, meddyliais i beth fyddai wedi digwydd i bobl Ynys Môn pe bai 'na ffrwydrad tebyg wedi digwydd yn Atomfa'r Wylfa ar yr ynys. Ar hyn o bryd codir Atomfa arall yn Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf dros Fôr Hafren a dim ond ychydig dan ugain milltir sy rhyngom ni yng Nghaerdydd a Gwlad yr Haf. Mae hyn yn codi cryn dipyn o bryder yn fy meddwl yn arbennig ar ôl gwylio'r rhaglen am Chernobyl.

Y mis diwethaf, soniais yn fy ngholofn am sefyllfa fregus yr iaith Aeleg yn yr Alban a'r mis hwn dw i am sôn am sefyllfa fregus y Llydaweg. Yn ddiweddar, cynhaliwyd protestiadau yn Llydaw gan fod y Wladwriaeth Ffrengig yn gyndyn iawn o gefnogi addysg drwy'r Llydaweg. Mae hyn yn ein hatgoffa am yr ymdrechion yng Nghymru flynyddoedd yn ôl i fynnu addysg Gymraeg i blant y wlad ond diolch byth 'dan ni wedi ennill y frwydr hon ar ôl ymgyrchu'n llwyddiannus i ennill y dydd. Nôl yn 1977 sefydlwyd Mudiad Diwan yn Llydaw sy'n brwydro i sefydlu ysgolion Llydaweg eu hiaith, ac mae'n amlwg bod y frwydr yn parhau yn Llydaw. Braf oedd deall am y bwriad i sefydlu Ysgol Gymraeg arall yng Nghymru a hynny i wasanaethu Tredegar a Dyffryn Sirhywi.

Buodd yr actores ddawnus Morfydd Clark gynt o Benarth a chyn-ddisgybl yn Ysgol Bro Morgannwg ac Ysgol Kings Monkton, Caerdydd yn anlwcus i beidio derbyn gwobr yn seremoni Gwobrau BAFTA am ei pherfformiad yn y ffilm arswyd o'r enw *"Saint Maud"* ond llwyddodd Syr Anthony Hopkins gynt o Bort Talbot i ennill gwobr BAFTA arall yn ei hanes. Ar hyn o bryd mae Morfydd draw yn Seland Newydd ar gyfer ffilmio *"Lord of the Rings"* ond yn ddiweddar bu'n siarad o Auckland ar raglen *"Heno"* ar S4C am y ffilm.

Hanner can mlynedd yn ôl, cyfansoddodd Max Boyce ei gân "Hymns and Arias" a glywir yn cael ei chanu'n aml gan y dyrfa yn y gemau rygbi rhyngwladol yn ein Stadiwm Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae Max yn dal i fyw yn ei dre enedigol yng Nglyn-nedd ac mae sôn rwan am godi cerflun ohono yn y dre. Mae Max wedi ein diddanu hefo'i ganeuon rygbi gogleisiol dros y blynyddoedd ac yn ffefryn hefo dilynwyr rygbi Cymru.

Erbyn i'r golofn hon weld golau dydd byddwn yn gwybod pwy fydd yn ben yn ein Senedd ym Mae Caerdydd am y pum mlynedd nesa. Mae talcen caled o flaen pwy bynnag fydd hynny oherwydd effeithiau'r firws a gadael yr Undeb Ewropeaidd ac ati, a felly pob lwc iddyn nhw!

### Gair o gydymdeimlad

Bu farw'r Parchg John Roberts, Abergwaun yn Ysbyty Llwynhelyg fore Gwener, 16 Ebrill, yn 95 oed. Bu'n Brifathro Ysgol Brynconin, Llandysilio cyn cyflwyno ei hun i waith y weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr yn eglwysi Ruhamah Pen-y-bont ar Ogwr a Harmoni Pen-caer ger Abergwaun. Doedd e ddim yn ddieithr i aelodau Eglwys Tabernacl Yr Ais ac roedd yn dad i Huw Roberts, trysorydd *Y Dinesydd*. Gair amserol o gydymdeimlad felly gyda Huw a'i deulu ac achos diolch am fywyd a gwaith amrywiol ei dad mewn sawl cylch.

# Colofn Natur

## *Cronfeydd Llanisien a Llys-faen*



### Gethin Jenkins-Jones

Mae'n hanes cyfarwydd i lawer ohonom ni yng Nghaerdydd fod sefyllfa cronfeydd Llanisien a Llys-faen wedi bod yn y fantol am ddegawdau. Cychwynnodd yr helynt yn 2002, pan nodwyd lleoliad cronfa Llanisien fel safle i adeiladu tai. Yn naturiol, roedd hyn yn ddadleuol iawn ymysg rhannau o'r gymuned, gyda nifer yn gweld y llynnoedd fel lle pert i fynd am dro neu i gerdded eu cŵn. Parhaodd gwrthdaro ffyrnig rhwng y perchnogion â'r bobl leol am dros bymtheg mlynedd, a chaewyd y safle i'r cyhoedd am flynyddoedd. Ond mae yna newyddion da ar y gorwel, ac mae cynlluniau i ailagor y lle o fewn y flwyddyn nesaf. Teimlaf felly ei bod hi'n addas o'r diwedd i mi rannu fy atgofion a fy mhrofiadau o'r safle pan oeddwn yn blentyn.

Roedd cronfeydd Llanisien a Llys-faen yn safle poblogaidd a chyfarwydd i adarwyr cenhedlaeth fy nhad. Ac eithrio Parc y Rhath, rhain oedd yr unig gyrff mawr o ddŵr yn y ddinas cyn creu Bae Caerdydd, a phob gaeaf byddant yn denu cannoedd o hwyaid o gyfandir Ewrop. Gydag ond ychydig o lystyfiant ar lannau caregog y ddau lyn, roedd modd gweld yr holl adar yn hawdd, a cherddai llawer o ymwelwyr rownd y ddau ar lwybr ffurf ffigwr wyth. Mae'n rhaid mai dyma sut bu fy ymweliadau cyntaf i â'r lle fel plentyn, ond tua phymtheg mlynedd yn ôl, a chynlluniau adeiladu posib ar y gorwel, amgylchynwyd cronfa Llanisien â ffens - ffens fetel, dal a edrychai fel ei bod yn carcharu'r llyn. Trwy gydol fy mhlentyndod roedd sganio llyn Llanisien yn brofiad lletchwith wrth i mi drio cael y telesgop i syllu drwy'r bylchau cul rhwng y pyst. Er bod hyn yn dipyn o niwsans, diolch byth bod niferoedd cystal (os nad yn fwy) o adar ar lyn Llys-faen i'w mwynhau - rhywbeth rhyfedd wrth feddwl ei fod yn llai na hanner maint Llanisien.

Fe fues i'n mynd yno yn weddol reolaidd pan oeddwn yn fach, yn enwedig rhwng 2008-2010 ar ôl cael gwersi saethyddiaeth yn Ysgol Uwchradd Caerdydd. Pob gaeaf, byddai'r dŵr yn cynnal heidiau o rywogaethau gwahanol fel Hwyaid Copog smart, Hwyaid Gwyllt, Cwtieir a gwylanod. Ambell dro, byddai rhywbeth mwy cyffrous yn eu mysg, fel Gwyach Gorniog neu Hwyaden Benddu o'r cyfandir. Yn y gwanwyn a'r haf byddai'r niferoedd yn lleihau, ond roedd dal digon i'w weld yno. Yn bwydo uwchben y dŵr y byddai niferoedd da o Wenoliaid ac, ar ymyl y dŵr, roedd modd gweld Cwtieir ac ambell Wyach Fawr Gopog hardd yn adeiladu eu nythod. Gwefr bob tro fyddai gweld Pibydd y Dorlan yn cael saib wrth fudo i fwydo ar bry ar ymyl y dŵr.

Ar ddechrau'r degawd diwethaf roedd adeiladu'r tai ar safle Llanisien yn edrych yn anochel, a draeniwyd y llyn i baratoi ar gyfer y gwaith. Roedd hi'n ddiddorol gweld cronfa mor fawr yn troi i fod yn bwll bach mewn ond ychydig fisoedd, yn gadael twll yn y ddaear a edrychai fel ôl gwrthdrawiad asteroid. Yn eironig, roedd hwn yn gyfnod tu hwnt o gynhyrchiol a chyffrous i adar ar y safle, a nifer o rywogaethau cymharol brin yn treulio amser ar y mwd oedd nawr i'w weld. Roedd yn well fyth i fi a fy nhad oherwydd cawsom ganiatâd swyddogol i gerdded ar hyd gwaelod y llyn yn fisol i arolygu'r adar. Braint! Roedd y mwd hwn yn arbennig o ddeniadol i'r Gïach Gyffredin a'r Gïach Fach - dau aderyn sy'n hoff o'r fath gynefin - a gwelid y ddau mewn niferoedd da yn ystod y gaeafau cyntaf. Yna, dechreuodd llystyfiant dyfu ar y mwd, ond yn fuan, efo'r gwrthdaro ar ei ffyrnicaf, gwaharddwyd y cyhoedd rhag cael mynediad i'r safle.

Am gyfnod, fe wnes i dderbyn y ffaith na fyddwn yn dychwelyd i'r lle am gyfnod hir iawn, os nad am byth. Fel llyn Eglwys Nunydd ger Port Talbot, roeddwn yn sicr y byddai mwynhad y safle bellach ond yn bodoli yn hen atgofion y rheiny ohonom wnaeth ymweld â'r lle cyn iddo gau. Cefais syndod felly i glywed rai misoedd yn ôl fod llyn Llanisien bellach wedi'i ail-lenwi, a bydd y safle yn ailagor i'r cyhoedd o fewn y flwyddyn neu ddwy nesaf. Y gobaith yw y byddwn yn gallu joio'r un adar a roddodd gymaint o fwynhad i genedlaethau yn y gorffennol. Er efallai bydd ailgyflwyno gweithgareddau hamdden fel hwylio a physgota yn debygol o darfu ar yr adar o bryd i'w gilydd, dwi'n siŵr bydd y safle yn denu rhagor o adar diddorol a chyffrous o fewn y blynyddoedd i ddod, a dwi'n methu aros!



*hwyaden gopog, hwyaden benddu a chwtiar*

*Llun: Jeff Slocombe*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Mae'r cyfarfodydd ar Zoom yn parhau'n llwyddiannus – yr aelodau'n elwa ac yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth sy'n cysylltu pawb â'i gilydd yn y cyfnod ynysu diflas hwn.

Cyfeiriwyd at golled yr Aelwyd a'r teulu wrth ffarwelio ag Eirlys Roberts, un o aelodau gwerthfawr a ffyddlon y gymdeithas. Hefyd cofiwyd eraill sydd wedi wynebu colledion yn eu teuluoedd ac sy'n dioddef o salwch.

Siaradwraig gyntaf mis Ebrill oedd Hannah Roberts, athrawes, actores a bardd amryddawn, poblogaidd. Ei thestun oedd "Y Pren Ceirios" sydd mor brydferth ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Cyfeiriodd at gywreinrwydd wyau Fabergé a ddangosai'r blodyn hwn yn ei ogoniant. Disgrifiodd gysylltiad y blodyn â Siapan, yn hoff symbol gan y Siapaneaid ar amryw o'r eiddo. Gan





nad yw'n para ond rhyw dridiau cymharodd ef â threigl bywyd.

Adnabyddir hi am ei chyfraniad a fwynheir gan bawb yn ei cholofn yn y *Dinesydd* yn fisol. Gorffennodd gan adrodd un o'i cherddi - "Sul y Pasg", a gyhoeddir cyn bo hir mewn casgliad o'i gwaith, yr elw i Gymorth Cristnogol. Bu'n brynhawn addysgol a diddorol gan wraig amryddawn, siriol a doniol!

Ail siaradwr mis Ebrill oedd y Parchedig Robert Nicholls, Llundain. Soniodd am ei gysylltiad agos â Phenclawdd, ei fro enedigol, a Chaerdydd. Dewisodd yr ymadrodd "Trwy Ddirgel Ffyrdd" fel sail i'w gyflwyniad, gan ganolbwyntio ar straeon doniol a ffraeth gan ac am weinidogion yn eu galwedigaethau ac aelodau'r capeli mewn ardaloedd fel Cei Newydd, Penuwch, Casllwchwr, Penclawdd, Llundain ac eraill. Gwnaeth pawb fwynhau a gwerthfawrogi ei bresenoldeb a'i hiwmor parod ar y cyfnod rhyfedd hwn.

Owen Saer fydd yn ein diddori ddydd Gwener, Mai 7fed ar Zoom am 2.00 y.p. - y ddolen gyswllt ar gael oddi wrth Allan Pickard (029 2132 0879) neu ar e-bost - aelwydhamdden@gmail.com.

## ANFON a DANFON

### (yn gyfystyr neu yn hollol wahanol?)

Mae'n wybodaeth gyffredin fod yr iaith Gymraeg yn cynnwys llawer o ymadroddion sy'n tarddu o'r Beibl. Bydd llawer o siaradwyr yn defnyddio'r ymadroddion hyn heb feddwl am eu tarddiad. Ymhlith y rhai cyffredin yw honno sy'n sôn am berson yn 'mynd yr ail filltir', sydd yn Efengyl Mathew, Pennod 5, Adnod 41. Dyma'r adnod berthnasol: 'Ac os bydd rhywun yn dy orfodi i'w ddanfon un filltir, dos gydag ef ddwy'. Y gair sy o ddiddordeb i mi yma yw 'ddanfon' (danfon). Fyddwn innau ddim yn ei ddefnyddio petawn i'n ceisio cofio'r adnod wreiddiol; byddai 'i fynd gydag ef' yn ddewis arall a thebycach.

Es i chwilio mewn llyfr difyr iawn (i mi, beth bynnag): Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd (1988) a chael (a) tair gwaith yn unig yn y Beibl cyfan y mae 'danfon' yn digwydd, (b) 'anfon' 710 gwaith - 325 ohonynt yn golygu 'anfon gan Dduw'.

O ble cododd y defnydd cymysglyd, cyffredin o'r ddau air cyfarwydd?

Rhaid oedd mynd at y ffynhonnell - Geiriadur yr Academi (The Welsh Academy English – Welsh Dictionary) neu, i roi iddo ei enw ar lawr gwlad, Geiriadur Bruce (Griffiths) heb anghofio Dafydd Glyn (Jones). Glaniais ar dudalen 1249 a thargedu 'send' a chael, **send** v.t. **1.** anfon (*not* danfon = **deliver**, **escort**). O chwilio pellach, cael 'deliver' (parcel) ac 'escort' (may I escort you home?). Cysylltir 'danfon' weithiau gyda 'hebrwng'.

Yn dilyn yr 'ymchwil' hon, rwyf wedi dod i benderfyniad, sef, dileu am byth y gair 'danfon' o'm geirfa. Mae 'anfon' yn cwrdd â phob gofyn ac ar ben hynny mae 'a' yn haws i'w threiglo. Cofiwch yr 'h'.

Un dasg i orffen: lluniwch frawddegau i gyfleu dwy ystyr 'danfon', gan osgoi defnyddio 'dilifro' ac 'esgorto'.

*Neville Evans*

# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel Pobol y Rhigwm unwaith eto. Fe gofiwch mai'r dasg y tro diwethaf oedd limrig yn cynnwys y llinell 'A hynny yn gwbl haeddiannol.' Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dim ond un sy'n haeddu'i le yn y papur y tro hwn, ac eiddo Pererin yw'r limrig hwnnw. Mae'r mydr yn gadarn a'r synnwyr yn llifo, ac mae'n limrig cyfoes i destun haeddiannol.

I Christine James ar ennill Cadair
Eisteddfod Caerdydd eleni:

Rhoed Cadair Caerdydd yn unfrydol
Am gerddi sy'n fyw ac amserol;
Mae gwobr Pen-rhys
Yn addurn i'r Llys,
A hynny yn gwbl haeddiannol.
Pererin

Llongyfarchiadau i Christine James ar ei champ, a llongyfarchiadau i Pererin ar ddilyn ôl ei thraed.

**Enillydd tasg rhif 42 yw**
**Gwen Emyr**

Y dasg i'r rhigymwyr erbyn y tro nesa yw llunio pennill o unrhyw fath (e.e. limrig, pennill telyn neu englyn) yn cynnwys yr ymadrodd '**am dro**'.

Anfonwch eich cynigion at :
bryan.val.james@gmail.com erbyn 20 Mai.

# Ysgol Bro Morgannwg

Wrth i'r holl ddisgyblion ddychwelyd i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi'r Pasg, dychwelodd y bwrlwm, cyffro a'r llwyddiannau hefyd.

**Dadlau dros Gymru**

Dewiswyd Sara Jones, disgybl blwyddyn 12 yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, o blith cannoedd o ymgeiswyr o Gymru i gynrychioli ei gwlad fel rhan o dîm Cymru ym Mhencampwriaethau Dadlau i Ysgolion y Byd. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn paratoi ar gyfer twrnamaint byd-eang a ddylai fod wedi ei gynnal yn Macau, ond oherwydd cyfyngiadau teithio Covid-19, cynhelir y gystadleuaeth ar Zoom yn hwyrach eleni.

Astudia Sara y Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg yn chweched dosbarth yr ysgol. Bu'n aelod ffyddlon o dimau dadlau a siarad cyhoeddus yr ysgol ers blwyddyn 7. Llynedd, cyrhaeddodd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Brydeinig yr 'ESU (English Speaking Union)' a'r rowndiau cyn-derfynol gyda'i thîm Siarad Cyhoeddus. Hefyd, mae Sara'n cystadlu trwy gyfrwng y Gymraeg a daeth ei thîm yn ail yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Rotari De Cymru yn 2020.




Dywedodd y Pennaeth, Mr Angell Jones, 'Rydym oll mor falch o Sara a'i llwyddiannau yma yn yr ysgol. Mae hi wedi datblygu ei sgiliau dadlau gan ennyn llawer o brofiadau amhrisiadwy yn yr ysgol wrth gystadlu gyda ni a chynrychioli Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Bu'n aelod ffyddlon o'r clybiau dadlau a siarad cyhoeddus all-gwricwlaidd ers blwyddyn 7. Erbyn hyn, mae'n arbennig i'w gweld yn cynrychioli ei gwlad. Yn bendant, mae gan Sara ddyfodol disglair o'i blaen!'

Dymunir yn dda i Sara wrth iddi gystadlu ym Mhencampwriaethau Dadlau i Ysgolion y Byd ym mis Gorffennaf. Bydd tîm Cymru yn cystadlu yn erbyn dros 70 o wledydd eraill.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sara a thîm Cymru!

# Y DIGWYDDIADUR

## MAI

**Sadwrn, 15 Mai**
TAFWYL. Bydd y prif ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ddydd Sadwrn, 15 Mai, ond cynhelir rhai digwyddiadau yn ystod y cyfnod rhwng dydd Sadwrn, 8 Mai, a dydd Sul, 16 Mai. Am yr amserlen yn llawn, ewch i https://tafwyl.org/

**Mercher, 19 Mai**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Cyfarfod Blynyddol y Gangen trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm, yn cael ei ddilyn gan sgwrs â Luned González o'r Gaiman. I gofrestru, cysylltwch ag Eiry Palfrey:
eirypalfrey@gmail.com

## MEHEFIN

**Iau, 17 Mehefin**
Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd*, trwy gyfrwng Zoom am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb. (gw. tud.3)

**COFIWCH FOD CROESO ICHI ANFON MANYLION I'R 'DIGWYDDIADUR' AM GYFARFODYDD RHITHIOL**

Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# NEGES O IWERDDON

## Lowri Haf Cooke yn holi Rhodri Mears

***Mae Rhodri Mears, sy'n 42 oed ac yn frodor o Thornhill, yn Brifathro ar Ysgol Gynradd Midleton Educate Together yn Sir Cork, Iwerddon. Mae e'n byw yno gyda'i wraig Emer a'u dau o blant – Jamie, sy'n 11, ac Aimee, sy'n 8 oed.***

**Pryd symudoch chi i Iwerddon a beth ydych chi'n ei wneud yno?**

Fe wnes i symud i Iwerddon o Gaerdydd mewn pryd i ddechau tymor ysgol 2002. Ar ôl graddio o Goleg y Drindod, Caerfyrddin yn 2000 fe wnes i weithio fel athro yn Ysgol-y-Wern, Caerdydd. Fe wnes i ddilyn Emer (sydd nawr yn wraig i mi) i Midleton (ar ôl cwrdd â hi yng Ngholeg y Drindod) a gweithio yn ysgol gynradd St John the Baptist, Midleton. Ar ôl 6 blynedd yno fe ges i gyfle i arwain ysgol newydd sbon ac wedi bod yn brifathro yno ers 13 blynedd a hanner bellach. Cyn dechrau'r tymor cyntaf, ro'n i'n poeni na fydden ni'n cyrraedd yr 20 disgybl angenrheidiol i agor yr ysgol. Heddiw, mae 585 o ddisgyblion gyda ni. Mae 27 dosbarth gyda ni a 5 ohonynt yn ddosbarthiadau o fewn yr Uned Awtistiaeth. Mae'r ysgol yn dal i dyfu gyda 2 ddosbarth sbâr i'w llenwi.



**Sut ddechreuodd bywyd newid i chi a'r teulu ar ddechrau'r pandemig?**

Ar ddydd Iau 12ed of Fawrth 2020, fe wnaeth Prif Weinidog Iwerddon, Leo Varadkar, ddatgan y byddai ysgolion y wlad yn cau yn syth am fod achosion Covid-19 yn cynyddu. Doedd neb wedi paratoi ar gyfer y sefyllfa hon. Wrth i ni gau nid oedd unrhyw syniad gennym am faint fydden ni'n gweithio o adre. Ar y pryd, roedden ni'n amau y bydden ni adref tan wyliau'r Pasg 2020! Ond mewn gwirionedd, arhosodd yr ysgolion ar gau tan fis Medi 2020. Mae fy ngwraig yn athrawes ysgol gynradd hefyd, felly roedd y ddau ohonom mewn sefyllfa debyg fis Mawrth diwethaf - adref gyda Jamie ac Aimee. Caeodd y gymuned o'n cwmpas yn araf deg oherwydd fod achosion Covid-19 yn dal i godi'n ddyddiol. Ac wedyn un diwrnod, wrth i ni ddod 'nôl o fod am dro yn lleol, fe glywsom ni sibrydion y byddai'r holl wlad yn cau heblaw siopau bwyd, ysbytai a gwasanaethau brys. Roedden ni gyd yn teimlo'n ansicr ac yn bryderus. Roedd gwisgo masgiau a defnyddio hylif diheintio dwylo wrth fynd mewn i siopau yn rhywbeth newydd ac yn angenrheidiol i geisio cadw'r gymuned yn saff. Roedd gweithio o adref yn her. Y peth pwysicaf oedd trio cyfathrebu gyda a chefnogi'n athrawon, rhieni'r ysgol ac wrth gwrs ein disgyblion. Ac wrth gwrs, gyda'r pandemig doedd ymweld â Chymru ddim yn bosib o gwbl.

**Beth yw eich barn chi ynglŷn â'r ffordd mae Iwerddon wedi ymateb i'r pandemig?**

Yn bersonol ma fe wedi bod yn rhwystredig iawn. Cyn yr haf roedd Iwerddon yn gwneud yn dda i gymharu gyda Chymru a Phrydain o ran niferoedd dyddiol o achosion Covid-19. Ond yn raddol, o fis Hydref ymlaen wrth i'r wlad lacio rheolau, fe wnaeth nifer yr achosion dyfu eto ac yn anffodus wnaeth Nadolig ddim helpu'r wlad o gwbwl. Yn ystod mis Ionawr eleni gwelwyd nifer achosion dyddiol uwch nag ar ddechrau'r pandemig yn Iwerddon. Roedd straen gwahanol o Covid-19 wedi dod mewn i'r wlad ac felly ysbytai o dan bwysau dychrynllyd. Caeodd yr ysgolion unwaith eto a dim ond ailddechrau'n raddol ers diwedd mis Chwefror, gyda phwyslais ar ysgolion â dosbarthiadau anghenion arbennig. Yn anffodus, nid yw'r rhaglen frechu wedi symud mor glou ag yr hoffwn i weld. Dwi'n 42, ac er fy mod yn gweithio mewn ysgol ac yn dioddef o asthma, nid oes apwyntiad i fi ar y gorwel eto. Dim ond nawr mae pobl 70 – 74 blwydd oed yn derbyn eu breichad cyntaf nhw. Cafodd fy chwaer a'm brawd yng nghyfraith, sy'n iau na fi, eu brechiadau cyntaf nhw yng Nghymru y penwythnos diwethaf. Wrth gwrs, mae'n anodd peidio cymharu Iwerddon gyda gwledydd eraill sy'n gwneud yn well na ni, ac eraill sydd wedi bod drwy gyfnod gwaeth na ni yn ystod y pandemig. Mae'n rhaid meddwl yn bositif a dwi'n obeithiol y byddwn ni'n osgoi pedwaredd don Covid-19.

**Sut ddechreuodd pethau newid i chi a'r teulu ar ddechrau'r pandemig**?

Fe wnaeth pethau newid yn sydyn yn sgil y pandemig. Fe wnaeth gweithgareddau'r plant stopio fel marchogaeth, nofio, gymnasteg. Fe wnaeth gwersi piano barhau drwy Facetime, ac fe wnaeth Jamie basio arholiad hefyd! Mae gan bob teulu rwtîn – aeth ein un ni ar chwâl! Mae gallu gadael y tŷ i fynd i'r gwaith i fi yn bwysig, i geisio rhoi cydbwysedd i'r diwrnod a'r wythnos. Roedd symud i weithio'n ddigidol yn hytrach na chael cysylltiad wyneb yn wyneb gyda phlant, rhieni a chyd-weithwyr yn anodd. Roedd gweithio o adref i ddechrau'n heriol – yn ceisio helpu'r plant gyda'u gwaith nhw a chynnal nifer o gyfarfodydd ar Zoom fy hun.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod fel teulu erbyn hyn?**

Ry'n ni'n lwcus ein bod ni nôl yn yr ysgol yn gweithio llawn amser. Mae Jamie ac Aimee yn dwli bod nôl a gweld ffrindiau. Mae gyda pob un ohonom ni batrwm

gwell o ran codi, bwyta a chysgu wrth i ni fyw bywyd ychydig yn fwy normal erbyn hyn. Rydyn ni dal yn ceisio cerdded 5km bob dydd o fewn y sir. Rydyn ni hefyd dal yn trio mynd i siopa bwyd pan mae'r siopau ychydig yn dawelach – un ai'n gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos yw'r amseroedd gorau. Ry'n ni'n edrych ymlaen at allu gyrru i'r traeth am dro cyn hir. Ry'n ni fel teulu'n dwli ar yr awyr iach ar lan y môr ac mae'n bosibl cyrraedd y traeth o fewn y sir. Ry'n ni'n lwcus tu hwnt. Fel nifer o bobl, ry'n ni'n edrych ymlaen at weld ein ffrindiau a theulu pan ma'r byd ychydig yn fwy saff. Ry'n ni wedi bwcio ystafell gyda Mam-gu a Thad-cu yng Nghaerdydd cyn gynted ag y mae'n saff i ni ymweld!

**Beth yw eich barn ar y sefyllfa yn Iwerddon ar hyn o bryd?**

Yn gyffredinol mae'r rhan helaeth o'r boblogaeth wedi gweithio'n galed i aros yn saff. Mae pawb yn flinedig iawn o'r pandemig ac mae yna deimlad nad yw penderfyniadau'r Llywodraeth wedi helpu dros y misoedd diwethaf. Wrth iddynt agor y wlad yn rhy gyflym cyn y Nadolig fe ddaeth y drydedd don a rhoi stop ar y wlad unwaith eto. Mae yna deimlad fod y rhaglen frechu yn rhy araf. Mae negeseuon gan y Llywodraeth yn newid yn rhy aml ac mae yna deimlad o rwystredigaeth gan nifer o bobl. Er fod pethau wedi gwella ac yn cario ymlaen i wella – diolch byth – fe all wedi bod yn well ac yn gyflymach.

**Beth oedd y sioc fwyaf i chi yn sgil y pandemig? A beth ydych chi wedi'i ddysgu o'r cyfnod hwn?**

Y sioc fwyaf i fi a nifer o athrawon yn y wlad yw'r neges ry'n ni'n clywed o hyd gan y Llywodraeth fod 'ysgolion yn saff'. Yn anffodus, os oes 27-30 o blant ym mhob dosbarth, mae 'na risg y bydd y feirws yn cael ei ledaenu. Heblaw am fasgiau, agor ffenestri, golchi dwylo a defnyddio hylif diheintio dwylo nid yw'r Llywodraeth wedi cydnabod y ffaith bod ysgolion yn cyfrannu tuag at achosion yn y pandemig. Mae'r pandemig wedi arafu pethau. Mae gwaith dal i fod yn brysur tu hwnt ond nid oes rhaid gyrru i gyfarfodydd yn ddyddiol. Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i fi fod adref mwy a bod yn Dad i'm plant. Oes wir angen rhedeg o gwmpas cymaint o ddydd i ddydd?

**Oes gyda chi neges i ddarllenwyr Y Dinesydd?**

Mae angen bod yn amyneddgar am ychydig yn rhagor o amser. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y cyngor sydd ar gael. Mae Covid-19 yn heintiol ac mae cymaint o bobl wedi colli bywydau ac yn dost iawn. Er fod aelodau o'n cymunedau wedi derbyn y brechiad, mae angen i ni gyd fod yn ofalus nes bod pawb wedi derbyn. Arhoswch yng Nghymru am ychydig hirach! Peidiwch cymryd dim yn ganiataol.

# Merched y Wawr Bro Radur

Ers sawl blwyddyn bellach, cynhelir noson croesawu siaradwyr newydd y Gymraeg i`r gangen, ac eleni ein braint oedd gwrando ar bedwar siaradwr rhugl yn adrodd eu hanes.

Magwyd Maggie Smales yn Swydd Efrog a threuliodd flynyddoedd yn Reading cyn symud i Gaerdydd gyda`i gŵr Pedr Jones, mab yr artist Jonah Jones, wyth mlynedd yn ôl a phenderfynu dysgu Cymraeg. Mae hi`n aelod o gangen Bro Radur ac wedi gweld eisiau`r cyfle i sgwrsio wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnodau clo.

Daw Ken Passmore o Landudno a phenderfynodd ddysgu Cymraeg er mwyn siarad â`i blant. Dilynodd gwrs dwys yng Nghanolfan Gartholwg ar ôl ymddeol a sefyll arholiad lefel A. Mae e'n dal i fynychu cwrs ar-lein yn wythnosol.

Brodor o Dongwynlais yw Ian Cox, sy'n gefnogwr brwd i dîm rygbi`r Gleision a thîm pêl-droed Dinas Caerdydd. Mae e a`i wraig Jan, sy`n aelod o`r gangen, wrth eu bodd yn mynychu boreau coffi er mwyn cwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill.

Cefndir gwahanol iawn sydd gan Cathy Stroemer. Fe`i magwyd yn Chicago cyn symud i Texas, ac wedyn cafodd ei gŵr waith ym Manceinion a Llundain cyn symud i Gaerdydd saith mlynedd yn ôl. Penderfynodd Cathy ddysgu Cymraeg er mwyn gwneud ffrindiau ac erbyn hyn mae hi`n rhugl ac wrth ei bodd yn dysgu am Gymru.



*Rhiain Bebb*



Gwahoddwyd Rhiain Bebb, sy`n diwtor Cymraeg yn y Canolbarth, i ymuno â ni er mwyn siarad am ei chasgliad o drysorau`n gysylltiedig â diwylliant Cymru. Ymysg pethau eraill roedd ganddi hen gyllell bren wedi ei cherfio â symbolau`r gwledydd Celtaidd yn ogystal â`r geiriau COFIA FI; medal arian a roddwyd gan Syr Benjamin Hall yn Eisteddfod y Fenni 1838 a thelyn deires a wnaethpwyd tua 1850 gan Basset Jones o Gaerdydd.

Rhiain sefydlodd Cymdeithas y Delyn Deires yn 2019, ac felly roedd hi`n addas ei bod yn dod â`i chyflwyniad i ben drwy ganu`r delyn deires. Gwerthfawrogwyd cyfraniad pawb ac mae`n rhaid diolch i Eirian Dafydd a Shirley Williams am drefnu noson arbennig.

# Colofn Hannah



*ffarwél am y tro yw hi y tro hwn*

Helô 'to, a hithe'n fish Mai, mish fy ngeni:

"Gwn ei ddyfod, fis y mêl,
Gyda'i firi, gyda'i flodau,
Gyda dydd fy ngeni innau -
Gwyn fy myd bob tro y dêl."

*Telynegion Maes a Môr* - Eifion Wyn neu Eliseus Williams 1867—1926 o Borthmadog, ac mae ysgol gynradd yno sy'n arddel ei enw.

Chi'n cofio:

"Tlws eu tw' liaws tawel - gemau teg
Gwmwd haul ac awel,
Crog glychau'r creigle uchel,
Fflur y main, ffiolau'r mêl."

Ma' honna ar y nghof i ers yn wyth mlwydd o'd, gwaddol Ysgol Gymra'g Lôn Las.

ac yna:

"Pam, Arglwydd, y gwnaethost Gwm Pennant mor dlws
A bywyd hen fugail mor fyr?"

Glywes i'r geire 'ma gynta yng ngwersyll Llangrannog. Rhoddwyd geirie y rhain ar gân i gerddoriaeth Meirion Williams a'r tenor Rhys Meirion yn canu. Enillws Eifion Wyn sawl cater eisteddfotol fel finne, ond bod e'n well bardd!! Mish Mai, y pumed mish, ond y trytydd o'dd e unwaith yng nghyfnod y Rhufeinied, ond ewn ni ddim fanna nawr!

Wel, pwrpas y golofn hon y tro 'ma yw diolch i'r *Dinesydd* am y cyfle, ac i Bryan James am fy ngwahodd i. Lanwodd hyn dipyn o'n hamser i yn ystod y flwyddyn (a mwy) ddwetha, a rhoi cyfle i fi gitsho m'wn pensil a chreu rwpeth wi'n dwlu neud.

Diolch i chi ddarllenwyr ymhob cwr o'r byd erbyn hyn, am eich ffyddlondeb i droi at y golofn, a finne wedi ca'l sylwate caretig a gwerthfawrgol. Meddygyniaethe Mangu fu'r testun rhan fwya' ond bo' fi 'di crwydro tipyn!!!

Wel, dyma'r ola am y tro, am fy mod wrthi'n fishi'n clasgu ngherddi miwn i lyfr i'w gyhoeddi gan Cymorth Cristnogol, am taw iddyn nhw fydd yr elw. Gobitho weliff e ole dydd eleni gan fod y mudiad yn dathlu saith deg pum mlynedd. Felly, diolch i chi gyd am eich ffyddlondeb. Hwyrach y daw Colofn Hannah nôl 'to cyn bo hir os y pwyllgor a'i myn. Iechyd Da am y tro.

'W i'n hala hon yn ola',
cael hoe ma' colofn Hannah
am y tro ta beth, - dros yr Ha',
dychwelyd pan ddaw'r Gaea'!!!!!?

***Fel yr ydych newydd ddarllen, mae Colofn Hannah wedi dod i ben am y tro. Ond diolch o galon iddi am y golofn dros y misoedd tywyll diwethaf. Bu ei chyfraniad yn fodd i godi gwên a'n haddysgu am feddyginiaethau a aeth dros gof. Felly diolch o galon Hannah am eich cyfraniadau gwerthfawr.***
***Hwyl am y tro!***

# Cymrodorion Caerdydd

I fyd chwaraeon y trodd Cymrodorion Caerdydd am bwnc ar gyfer cyfarfod mis Ebrill. Y siaradwr oedd Ian Gwyn Hughes. Teitl ei gyflwyniad oedd 'Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Gymraeg'.

Dechreuodd sylwebu ar chwaraeon yn gyffredinol i'r BBC yn 1982 cyn cael ei apwyntio'n ohebydd pêl-droed yn benodol, ac yna yn Olygydd Pêl-droed (ar deledu). Bellach, mae'n Bennaeth Adran Materion Cyhoeddus Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Am flynyddoedd lawer ceid yr argraff mai tenau braidd oedd Cymreictod y tîm pêl-droed cenedlaethol, gyda nifer o'r chwaraewyr yn edrych ar goll pan genid yr anthem genedlaethol. Erbyn hyn, bu newid mawr yn nelwedd y tîm a'r Gymdeithas. Yn ei sgwrs dangosodd Ian sut yr aeth ati, o gam i gam, i alluogi chwaraewyr a swyddogion yn raddol i ddyfnhau eu hymwybyddiaeth o'u treftadaeth Gymreig. Pethau bychain ynddynt eu hunain, megis ymweld â Llangrannog, sefyll wrth fedd Hedd Wyn, cael gwybod am y 'Welsh Not' a hanes boddi Capel Celyn. Unwaith, mewn cwis ar ôl cinio gofynnwyd y cwestiwn (ond nid gan Ian!), 'Taid pa swyddog gafodd ei garcharu am roi eiddo ar dân?'. A dyna gyfle i ddweud hanes Penyberth.

Dyma greu hinsawdd lle yr oedd cofleidio'r Gymraeg ac ymfalchïo ynddi yn dod yn rhwyddach. Ond Ian fyddai'r cyntaf i fynnu nad ef yn unig oedd y lefain yn y blawd. Talodd deyrged gynnes i Osian Roberts ac i gefnogaeth ddiwyro Gary Speed a Chris Coleman.

Ond nid y tîm cenedlaethol yn unig a Gymreigiwyd. Cymreigiwyd y cefnogwyr hefyd, gyda 'Hen Wlad fy Nhadau' yn cael ei lleisio gydag arddeliad yn y stadiwm, nid ar y cae yn unig. Er mai pêl-droed oedd thema'r noson, gwelsom olwg ar rywbeth dyfnach na hynny, sef adferiad hunan-barch.

# Merched y Wawr Caerdydd

A hithe'n flwyddyn ers ein cyfarfod diwethaf 'go iawn' ni fel cangen, closio at ein gilydd am noson o frethyn cartre wnaethon ni fis Ebrill yn dilyn ein cyfarfod blynyddol. Thema'r noson oedd 'Beth yw'r gwanwyn/Pasg i mi?' a braf oedd cael rhannu myfyrdodau Ceri, Judith, Glesni, Alison a Rosina drwy gerddoriaeth, llenyddiaeth, atgofion a myfyrdodau - o gerddoriaeth Smetana a Handel i ddarlleniadau o waith T Rowland Hughes ac Angharad Price. Oll yn ddathliad o adfywiad y gwanwyn a'r Pasg, yn arbennig felly eleni wrth i ni symud ymlaen yn obeithiol at gyfnod gwell. Cawsom hefyd gyfle i glywed am un o'r tair elusen y bu i ni gyfrannu iddyn nhw gydag Ann Beynon yn ein cyflwyno i Ymddiriedolaeth Salesbury y tro yma. Bydd ein cyfraniad yn mynd tuag at ysgoloriaethau i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymerwyd y cyfle hefyd i gyflwyno rhodd o ddiolch i Mair John sydd wedi bod yn drysorydd i'r gangen ers y cychwyn.




*Yr aelodau a gymerodd ran ar y noson*

# Cymrodorion Y Barri

**Murluniau Eglwys Llancarfan**

Ym mis Mawrth, bwriadwyd clywed sgwrs rithiol gan y newyddiadurwraig Gwenda Richards (gwraig wadd ein cinio Gŵyl Ddewi na ddigwyddodd). Ond y pnawn hwnnw clywsom am farwolaeth Euryn Ogwen Williams, un o'n haelodau anwylaf, a phenderfynwyd gwneud y cyhoeddiad trist yn ein cyfarfod, ac yna allan o barch a gofid gau'r cyfarfod.

Ym mis Ebrill, roeddem am fynd ar wibdaith yng nghwmni'r Athro Madeleine Gray i weld y murluniau canol-oesol ar furiau eglwys Sain Cadog Llancarfan ym Mro Morgannwg. Roedd hi'n siom na chawsom fynd, ond yn bleser cael sgwrs rithiol hynod ddifyr gan Dr Gray a gweld nifer o ddarluniau o'r murluniau. Ateb nad oedd yn berffaith, ond yn ddiddorol ac addysgiadol tu hwnt.

Wrth adnewyddu to'r eglwys yn 2005 darganfyddwyd dan haenau trwchus o wyngalch linell goch ar fur yr eglwys - arwydd i'r arbenigwyr fod murlun o bosib o dan y gwyngalch, ac aethpwyd ati'n boenus o ofalus i ddadorchuddio'r hyn oedd oddi tano.

Dywedir i Cadog sefydlu mynachdy yma yn y 6G. (Ystyr Llancarfan yw Eglwys y Ceirw). Clywsom hanes Cadog a'r cefndir hanesyddol a chawsom weld ffotograffau o'r murluniau coeth a lliwgar, y rhai mwyaf trawiadol yn y wlad. Yn dominyddu un wal mae Sant Siôr ar ei geffyl yn lladd y ddraig, gwelir Angau, y Saith Pechod marwol, a'r saith weithred drugarog a llawer mwy. Credir fod y murluniau'n dyddio o ail hanner y 15G. Yn ddiweddarach mewn hanes, paentiwyd adnodau Beiblaidd dros ben y murluniau. Gorchuddiwyd y cyfan yn ystod y Diwygiad Protestannaidd. Mae'n amhosib eu disgrifio heb eu gweld. Gan obeithio y bydd yr eglwys yn agor yn fuan i'r cyhoedd - rwy'n eich annog i fynd yno – cwta 15 milltir o Gaerdydd (CF62 3AD) a phrofi'r rhyfeddodau gwych hyn drosoch eich hunain! (https://www.bbc.co.uk/news/av/magazine-25214557)

Ym mis Mai, byddwn yn cynnal Noson Lawen rithiol.



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



**Yr Athro E. Wyn James**

## Iolo Morganwg a Cherdd yr Eos ar Lan Elái
*(Rhan 2)*

Fel y nodwyd yn y golofn hon yn rhifyn mis Ebrill, er bod Iolo Morganwg yn fardd mawr ac yn feistr ar y canu caeth a'r canu rhydd fel ei gilydd, cuddiwyd ei fawredd i gryn raddau am iddo briodoli llawer o'i gerddi i feirdd eraill er mwyn creu gorffennol barddol gwych i'w Forgannwg hoff. Cystal, yn wir, oedd ei waith ffugio a'i allu fel bardd fel na ddatgelwyd y twyll am ryw gan mlynedd ar ôl marw Iolo yn 1826; ac er ymdrechion nifer o ysgolheigion galluog, ni lwyddwyd hyd heddiw i wahaniaethu'n llwyr rhwng y gwir a'r gau.

Un o gerddi hyfrytaf Iolo yw un y mae'n honni iddi gael ei chanu yn 1660 gan Ddafydd Gibwn o Sain Ffagan. Cerdd ydyw lle y mae 'mab ifanc' yn gofyn i eos fynd yn negesydd serch at ferch yn Nhyllgoed, ac arwydd o ragoriaeth y gerdd yw'r ffaith fod Thomas Parry wedi ei chynnwys (dan enw Iolo) yn yr *Oxford Book of Welsh Verse* (1962).

Cerdd synhwyrus, ramantaidd ydyw, ac yn debyg iawn o ran ei naws a'i mater i'r rhan fwyaf o'r cerddi eraill sydd yn *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, y casgliad o 95 o'i gerddi yn y mesurau rhydd a olygwyd gan P. J. Donovan yn 1980. Trewir y nodyn rhamantaidd o'r dechrau'n deg. Fel y gwelwn o'r geiriau agoriadol, 'A minnau', cerdd yn y person cyntaf ydyw. Ynddi cawn lanc yn adrodd fel y bu'n crwydro'n unig wrtho'i hun yn ymyl coed ger afon Elái ar noson braf o Fai, wedi ymgolli yn ei fyfyrdodau ac yn glaf o gariad, pan glyw aderyn yn canu'n swynol ac yn llawen o lwyn cyfagos.

Gwyddwn mai prydydd yw'r llanc oddi wrth bennill olaf y gerdd. Roedd yn arfer cyffredin mewn cerddi rhydd o'r 17eg ganrif i'r bardd ddweud rhywbeth amdano ei hun tua diwedd y gerdd, ac mae Iolo yn dilyn y confensiwn hwnnw yn y gerdd hon, gan ddatgan mai 'mab ifanc yn San Ffagan o brydydd diddan dwys' a'i canodd. Mae Iolo hefyd wedi ychwanegu nodyn yn ei gopi llawysgrif o'r gerdd sy'n honni mai 'Dafydd Gibwn ai cant 1660'.

Un o'r anawsterau mawr wrth geisio nithio'r gwir oddi wrth y gau yng ngwaith Iolo yw bod hedyn o wir yn aml iawn wrth wraidd ei ffugiadau. Nid yw'n syndod gweld Iolo'n gosod y gerdd hon yn Sain Ffagan, oherwydd mae ei gerddi rhydd yn gyffredinol wedi eu lleoli ym Morgannwg neu yn mynegi hiraeth amdani: 'Gwladforgan lle'm ganed, ni welaf d'anwyled.' Ond mae rheswm penodol gan Iolo dros leoli 'Dafydd Gibwn' yn Sain Ffagan, oherwydd roedd gan hen deulu bonheddig 'y Gibyniaid Gwirion', fel y'u gelwir gan Iolo yn un o'i lawysgrifau, gysylltiadau agos â'r ardal honno.

Rhoddai aelodau o'r teulu hwnnw groeso i'r beirdd. Mae marwnad wedi goroesi gan Risiart ap Rhys Brydydd (*fl. c.* 1485–1515), tad y pencerdd Lewys Morgannwg, i Hywel Gibwn o Gefn-tre-baen (Pentre-baen erbyn heddiw); ac un arall o'r teulu oedd y cyfreithiwr John Gibbon, a ddechreuodd godi Castell Sain Ffagan (y plasty Elisabethaidd uwchlaw afon Elái sydd bellach yn rhan o'r Amgueddfa Werin) yn ail hanner yr 16eg ganrif.

Ym Mai byr ei nosau y mae'r bardd yn rhodio ger afon Elái. Mis Mai yw mis cynta'r haf, ac fel y cawn ein hatgoffa gan Saunders Lewis yn ei ddrama *Siwan*, diwrnod o ddathlu a dawnsio oedd diwrnod cynta'r mis,



*Llun : Wikipedia*

Calan Mai (neu Glamai), diwrnod y cariadon. Roedd Iolo yn amlwg yn gwirioni ar fis Mai, oherwydd mae llawer o'i gerddi yn cyfeirio at y mis hwnnw; a chawn ein hatgoffa ynddynt o ganu afieithus Dafydd ap Gwilym i serch ac i fyd natur, ac i fis Mai yn benodol – mis y mae Dafydd yn ei bersonoli fel 'cyfaill cariad ac adar' yn ei gywydd 'Mis Mai a Mis Ionawr'.

Mae gan Ddafydd ap Gwilym nifer o gerddi sy'n sôn am anfon llatai, neu negesydd serch. Carw sy'n mynd yn llatai mewn un cywydd, a'r gwynt mewn cywydd arall, ond adar yw'r negeswyr serch yng ngherddi Dafydd gan mwyaf. Lluniodd Iolo yntau nifer o gerddi llatai, ac mae'r gerdd hon gan 'Ddafydd Gibwn' yn un ohonynt, oherwydd yng nghorff y gerdd mae'r bardd yn adrodd sgwrs rhyngddo ac eos, lle y mae'n gofyn i'r aderyn fynd ar frys drosto at ferch yn Nhyllgoed i fynegi'r galar sydd yn ei galon oherwydd ei gariad tuag ati.

Mae'n amlwg fod Iolo'r bardd wedi ei gyfareddu gan fyd natur, ac nid lleiaf gan adar. Mae ei gerddi'n llawn sôn am y 'teg adar tew goedydd yn llawn eu llawenydd'. Mewn un gerdd latai, mae'n gofyn i gynifer â phump ohonynt fynd yn negesydd drosto: y fwyalch, y fronfraith, yr hedydd, y gog a'r eos. Ond o'r holl adar amrywiol sy'n cael eu henwi yn ei waith, ac nid yn ei gerddi llatai yn unig o bell ffordd, ni chrybwyllir yr un aderyn yn amlach, hyd y gwelaf, na'r 'eos bêr ei sain', y 'loyw farddes twf irddail heb ail iddi'n bod'.

Dyma a ddywed *Geiriadur Prifysgol Cymru* o dan y gair 'eos': 'Aderyn bychan llwyd ymfudol sy'n dod i Brydain yn gynnar ym mis Mai, gan fynychu'r iseldiroedd coediog a chanu'n beraidd hyd yn nyfnder nos.' Nid yw'n syndod, felly, fod Iolo wrth ei fodd o glywed yr eos, rhwng y ffaith ei bod yn arwydd o ddyfodiad mis Mai a hyfrydwch ei sain – a'i chân beraidd, wrth gwrs, a arweiniodd at gyffelybu beirdd a chantorion i'r eos: dyna Dafydd ap Gwilym, er enghraifft, yn cael ei alw'n 'Eos Dyfed', ac yn nes o dipyn at ein dyddiau ni, dyna'r canwr gwerin Saesneg o Fro Gŵyr, Phil Tanner (1862–1950), yn cael yr enw 'the Gower Nightingale'.

Dywed *Geiriadur Prifysgol Cymru* ymhellach am yr eos: 'prin ac anghyffredin yw ei ymweliadau â Chymru.' Dyna, mae'n siŵr, sy'n cyfrif am absenoldeb pennod ar yr eos yn *Llyfr Adar (Adar Cymru)*, y gyfrol ddifyr honno a gyhoeddwyd yn 1907 gan y naturiaethwr brwd a'r llenor dawnus, Richard Morgan o Dal-y-bont (Ceredigion) a Llanarmon-yn-Iâl, a chyfrol sy'n cynnwys lluniau lliw hyfryd o waith Archibald Thorburn ac Eliza Turck. Ond os gellir dibynnu ar dystiolaeth cerddi Iolo Morganwg, ymddengys nad oedd prinder eosiaid ym Mro Morgannwg tua diwedd y 18fed ganrif!


*(I'w barhau)*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun, Ebrill 19eg cawsom ddarlith hynod ddiddorol a chofiadwy gan Huw Morgan o Brifysgol Aberystwyth. Y testun oedd 'Yr Haul - ein ffrind, ein gelyn'. Dechreuodd Huw drwy sôn am rai ffeithiau sylfaenol am yr Haul: mae ei gyfaint yn 1.3 miliwn gwaith cyfaint y Ddaear, ac mae 99.8% o fas system yr Haul ynddo! Rydym yn deall mai ymasiad niwclear yw tarddiad egni'r Haul ac ers 1939 yn deall y broses yn dda.

Yna soniodd Huw am Gorona, nid y firws sy'n ein llethu ar hyn o bryd, ond yn hytrach atmosffer yr Haul a elwir yn gorona na ellir ond ei weld yn glir mewn eclips solar. Arweiniodd mesuriadau o'r corona yn ystod eclips 1868 at ddarganfyddiad yr elfen Heliwm cyn iddo gael ei weld ar y Ddaear. Y flwyddyn ganlynol, 1869, gwelwyd awgrym o elfen newydd arall a enwyd yn 'Coroniwm' a bu cryn chwilio amdano, nes sylweddolwyd mai atomau o haearn wedi eu cynhesu i dymheredd eithafol oedd Coroniwm. Mae'n ddirgelwch, hyd yn oed heddiw, sut mae cynhyrchu'r tymheredd angenrheidiol o dros 1 miliwn gradd canradd.

Yna aeth Huw â ni'n agosach at wyneb yr Haul, lle mae'r maes magnetig enfawr yn gallu achosi ffrwydradau. Gwelwyd un o'r ffrwydradau yma yn 1859 gan y seryddwyr Richard Carrington a Richard Hodgson. Yn fuan wedyn, amharwyd ar systemau telegraff y byd wrth i'r Ddaear grwydro i lwybr y ffrwydrad. A dyma lle gall yr Haul droi o fod yn ffrind i fod yn elyn. Nid oes neb yn siŵr pa effeithiau y byddai ffrwydrad tebyg i ddigwyddiad Carrington yn eu cael ar ein bywyd bob dydd heddiw. Mae'n sicr y byddai offer trydanol ac electronig yn cael ei effeithio – ni allwn ond gobeithio na chawn ddigwyddiad o'r fath cyn i ni gael systemau i'n hamddiffyn yn barod.



***Y seryddwr Richard Carrington a'i sgets o'r spotiau ar yr haul ar 1 Medi 1859***

*Rhys Morris*

## SALEM, TREGANNA

**Cwrdd unwaith eto**

Braf oedd cynnal gwasanaeth yn Salem ar ddydd Gwener y Groglith ac ar Sul y Pasg am y tro cynta ers tro. Gyda'r cyfyngiadau'n parhau am ychydig eto, rydym yn dal i gwrdd ar Zoom ar foreau Sul, ac yn gobeithio ac yn edrych ymlaen at gynnal nifer o weithgareddau yn yr awyr agored cyn hir.

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Rhian ac Elgan ar eu priodas yn Salem ar 17 Ebrill. Dymuniadau gorau gan bawb yn Salem.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Enid a Gwynn Angell ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Eirlys Roberts, aelod a pherson annwyl, gofalgar a llawen. Cydymdeimlwn â'r teulu oll, ac yn arbennig â Gwyn, Rhian, Manon ac Awen.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r Parch. Haydn Thomas a'i wraig Doreen, wedi iddo golli ei frawd, Eurwyn yn ddiweddar.

Ein cofion atoch oll yn eich hiraeth.

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Oedfaon Mai:** (rhithiol hyd at y 23ain o Fai)

Gobeithiwn y byddwn yn ailagor y capel ar gyfer gwasanaethau o'r 23ain o Fai ymlaen.

Parhau i gwrdd yn rhithiol y bydd yr Ysgol Sul.

2 – Cymundeb gyda Delwyn Siôn
9 – Cymorth Cristnogol
16 – Parchedig Dafydd Andrew Jones
23 – Merched y Capel
30 – Parchedig R. Alun Evans

Darllenais bod paent gwyn, "gwynnach na gwyn", wedi ei ddyfeisio, a'i fod yn abl i adlewyrchu hyd at 98% o oleuni'r haul. Petae 1% o arwynebedd y ddaear yn cael ei beintio gyda'r paent, byddai'n lliniaru cynhesu byd-eang ac yn arbed ynni. Mae paent "tra-du" (*ultra -black*) ar gael ers 2014, sydd o gymorth i ehangu ein hymchwil o'r bydysawd.

Ond hiliaeth pobl, nid paent, aiff â'n sylw parhaus. Er na chyhoeddwyd y ddedfryd eto, mae geiriau Esgob Minnesota, y Gwir Barchedig Craig Loya yn atsain yn ein clustiau yn sgil y dyfarniad yn achos llofruddiaeth George Floyd:

"M*ae teimlad o gyfiawnder*" a "*hyd yn oed ryddhad*", meddai, ond *"wnaiff hyn ddim gwella'r afiechyd o hiliaeth*".

Neges ysgytwol yn wir o'r UDA, ond yma ym Mhrydain, yr un yw'r gri serch y mynych addewidion a'r disgwyliadau:-

Chafodd adroddiad "annibynnol" y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig (*Commission on Race and Ethnic Disparities*) fawr o groeso;

Bu beirniadu ar Eglwys Loegr oherwydd yr oedi mewn gweithredu ar ganlyniadau adroddiadau blaenorol. Yn ôl y Tasglu Gwrth-Hiliaeth, "*mae edifeirwch yn gofyn mwy nag ymddiheuriad*" (gweler "*From Lament to Action*".)

Lleisiwyd bwriad clybiau pêl-droed proffesiynol i osgoi'r gwefannau cymdeithasol am bedwar diwrnod oherwydd y llid a'r bryntni a gyfeirir, yn ddi-enw, at eu chwaraewyr.

Petawn yn dweud wrthych nad oes sôn am berson "*gwyn"* yn fersiwn Beibl.net o'r Beibl, ond bod 'na bedwar cyfeiriad at "*ddyn du*" ynddo, fyddai yn eich synnu?



***Rhian ac Elgan ar ddydd eu priodas***

## TABERNACL, YR AIS

Dymuna Eglwys y Tabernacl ymddeoliad wrth ei fodd i'n Gweinidog, Denzil John, wrth iddo ymddeol o weinidogaeth y Tabernacl ar derfyn 30 mlynedd o wasanaeth ymroddgar. Diolchwn yn gynnes a didwyll am ei arweiniad clir a gofal cyson i eglwys y Tabernacl. Daw cyfle i dalu teyrnged haeddiannol a gwerthfawrogiad teilwng o'i wasanaeth pan fydd amgylchiadau Covid yn caniatáu.

Cafwyd gwasanaethau Zoom bob bore yn ystod y mis. Linda Gruffudd oedd wrth y llyw ar Sul y Pasg; yna ar yr ail Sul, Wendy Owen, Nia McVeigh a Rhian Williams gymerodd yr awenau. Bethan, Manon ac Angharad oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth ar drydydd Sul y mis ac Ann Beynon, Nicola Baker a Rhian Morse a arweiniodd yr oedfa olaf.

Cynhaliwyd gwasanaethau nos Sul yn y capel. Yn ystod mis Ebrill, croesawyd Denzil John, Owain Llŷr Evans, John Roberts a Huw Lewis i gynnal yr oedfaon yn eu tro. Mawr yw ein dyled iddyn nhw am dderbyn y gwahoddiad.

Rhannwn lawenydd Helen a Rhys Jones wrth iddynt groesawu aelod newydd i'r teulu, sef Elsi Helen, merch i Eleri a'i chymar Ben.

Dymunwn yn dda i Rhodri ab Owen a Bethan yn eu cartref newydd ym Mhontcanna.

Llongyfarchiadau calonnog i Ann Beynon ar ei phenodi yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd y coleg yn siŵr o fanteisio ar ei phrofiad helaeth ym myd busnes a'i haml ddoniau. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi ddechrau ar y bennod newydd hon yn ei gyrfa.



*Y Parchedig Denzil John*

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon ac addoli**

Mae ein patrwm o oedfaon ar fore Sul, bore Mercher a nos Fercher yn parhau dan arweiniad ein Gweinidog, gydag ambell lais gwahanol yn arwain yn achlysurol ar y Sul. Bydd oedfa 9 Mai yn tynnu sylw at waith Cymorth Cristnogol a bydd cyfle ar y Sul hwnnw, ar Sul 16 Mai ac yn ystod yr wythnos i gefnogi gwaith a chyfrannu at Gymorth Cristnogol sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 75 eleni. Gan nad yw pawb yn gallu dod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a bore Mercher ar *Zoom*. Diolch i'r gweinidog am ddarparu taflen addoli wythnosol i gyd-fynd ag oedfa'r Sul. Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae hi'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn cael mynychu oedfaon yn y capel.

**Yr Ysgol Sul a PIMS**

Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gwrdd ar *Zoom* ar brynhawn Mawrth. O 10 Mai, bydd PIMS yn cyfarfod unwaith eto bob yn ail wythnos yn y Deml Heddwch.

**Oedfaon dydd Mercher**

Ers y Pasg, ffocws ein Gweinidog yn oedfaon bore Mercher fu ffenestri eglwysi. Cawsom gyfle yn barod i fyfyrio ar ffenestr ryfeddol John Petts yn Eglwys Santes Fair, Aberhonddu ac ar ffenestr drawiadol wedi ei chreu o ddarnau toredig yn Eglwys Sant Tewdrig, Matharn. Edrychwn ymlaen at fwy o'r teithiau dychmygol hyn. Cyfres newydd o astudiaethau ar y Credo Apostolaidd a geir yn oedfaon nos Fercher.

**Teithiau cerdded**

Ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio ychydig ddiwedd mis Ebrill, braf yw gallu mynd am dro yng nghwmni ein cyd-aelodau unwaith eto.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## EGLWYS Y CRWYS

Dymunwn wellhad buan i Mrs Sally Davies sydd wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl yn ein plith.

Cafwyd noson hynod o ddiddorol o dan ofal Y Gymdeithas gyda nifer o aelodau yn hel atgofion am Y Crwys. Cymerwyd rhan gan Eleri Bines a soniodd am gyfnod cynnar y Gymdeithas Ddrama; hanes Côr y capel gan Gwen Edwards yn perfformio'r gweithiau mawr fel Y Greadigaeth o dan arweiniad ei diweddar dad, Mr Tom Ellis James a cherddorfa ieuenctid yr Eglwys; profiad Gareth Rhys Davies yn dod i'r Crwys fel myfyriwr ac wedi derbyn croeso a chyfeillgarwch o'r cychwyn cyntaf; atgofion plentyn gan Hannah Thomas yn mynd am deithiau i Goleg Trefeca, y tripiau Ysgol Sul a Chlwb Trwro; cofnod o wasanaethau'r Ysgol Sul a gweithgareddau'r Cwrs Haf gan Siân Griffiths; a Delwyn Tibbott yn hel atgofion am Deithiau y Parch. Cynwil Williams i Israel a'r hanes am y symud adeilad o Crwys Road i'r capel newydd yn Richmond Road. Profiad plentyn a godwyd yn Y Crwys a gafwyd gan Gareth Lloyd Jones pryd oedd y capel yn orlawn yn y ddwy oedfa ar y Sul. Diolch o galon i Rhiannon a Megan Bill am drefnu noson ddifyr dros ben.

Bydd y Parch. Lona Roberts yn llywyddu Sasiwn Rhithiol Chwiorydd y De ar Fai 20fed am 2.00 o'r gloch pryd y ceir anerchiad gan yr Athro E. Wyn James ar 'Pedr Fardd a'i Weledigaeth Genhadol'. Croeso i bawb ymuno. Cysyllter â'r Parch. Lona Roberts i gofrestru.

Bydd drysau'r Crwys yn ailagor ar Fehefin 6ed am 11.00 o'r gloch ac ar Fehefin 20fed am 6.00 o'r gloch gyda'r gwasanaethau o dan ofal y Gweinidog. Bydd y gwasanaethau hyn hefyd yn rhithiol. Ar Fehefin 13eg bydd y Parch. Lona Roberts yn cynnal gwasanaeth rhithiol a'r Parch. Dafydd Andrew Jones yn cynnal gwasanaeth tebyg ar Fehefin 27ain.

## EBENESER

**Pecyn Pasg Plant**

Derbyniodd 30 o deuluoedd sy'n gysylltiedig ag Ebeneser becynnau Pasg ddechrau mis Ebrill. Yn y bagiau roedd yna ŵy Pasg, llyfryn Cymdeithas y Beibl sef, Popeth am y Pasg a chrefftwaith iddynt ei wneud yn ystod y gwyliau. Cafwyd sawl neges yn diolch am y pecynnau ac yn sôn am yr hwyl gafodd y plant yn cwblhau'r tasgau ac, wrth gwrs, yn bwyta'r wyau Pasg! Diolch o galon i Rachel Jones, Luned Aaron am osod y pecynnau at ei gilydd ac i'r rhai gludodd hwy i'r cartrefi.



**Oedfa Pasg y Chwiorydd**

Fe gafodd Cymdeithas y Chwiorydd oedfa'r Pasg fendithiol iawn trwy gyfrwng cynhadledd ffôn ar bnawn Iau 25 Mawrth. Lluniwyd yr oedfa gan Freda Evans, Penarth, a diolchwn yn fawr iawn iddi am ei gwaith. Gosododd yr oedfa at ei gilydd, postiodd gopïau i bawb a chysylltu ar y ffôn gyda nifer o'r rai oedd yn cymryd rhan. Yn ystod yr oedfa cawsom gyfle i fyfyrio ar arwyddocâd y Pasg ac i addoli'r Arglwydd gyda'n gilydd. Diolch i bawb gymerodd ran ac am eu cyfraniadau gwerthfawr.

**Oedfa gyda Seilo**

Hyfryd iawn oedd cael cyd-addoli gydag aelodau Seilo, Caernarfon, fore Sul 28 Ebrill trwy gyfrwng Zoom. Mae drysau newydd wedi agor trwy dechnoleg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cynulleidfa dda wedi dod at ei gilydd - rhyw 66 o ffenestri olygai fod rhwng 80 a 100 yn cyd-addoli. Pregethodd Alun am y Gostyngeiddrwydd Mawreddog sydd i'w weld yn Iesu. Diolch am ei neges.

**Ailgychwyn cyfarfod**

Hwrê! Ar Sul y 18fed o Ebrill, agorodd Canolfan yr Eglwys Newydd ei drysau am y tro cyntaf ers cyn y Nadolig. Felly, diolch i'r drefn cawsom ailddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb. Ar ôl ymron pedwar mis o gyfarfodydd rhithiol, dyna fendith oedd cael cyd-addoli yng nghwmni ein gilydd.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

Profiad llawen a bendithiol oedd ymgynnull yn Tabernacl, yr Eglwys Newydd, nos Sul, Ebrill 25 ar gyfer gwasanaeth. Rydym yn ddiolchgar i swyddogion yr eglwys am ganiatáu i ni ddefnyddio'r adeilad gan ei fod yn galluogi mwy ohonom i gyfarfod. Y gobaith yw parhau â'r trefniad yma am 5 o'r gloch bob nos Sul. Gan nad oes lle i ni i gyd fynychu bydd rhaid wrth rota, ond bydd modd ymuno â'r cyfarfod ar Zoom.

**Paned a Sgwrs**

Yn y rhifyn diwethaf soniwyd am fywyd cynnar Dr Martyn Lloyd Jones. Yn ddiweddar yn ein cyfarfod merched buom yn meddwl am ei wraig Bethan Lloyd Jones. Perthynai Bethan i deulu enwog ym mywyd crefyddol Cymru. Ei thad-cu oedd Evan Phillips, gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yng Nghastell Newydd Emlyn. Roedd Tom Phillips, tad Bethan yn feddyg llygaid yn Llundain ac roedd Lloyd George yn un o'i gleifion. Ymgymhwysodd Bethan fel meddyg mewn cyfnod pan mai prin iawn oedd y merched a astudiai Meddygaeth. Roedd y teulu Phillips yn aelodau yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Charing Cross ac yno cyfarfu Bethan â'i gŵr. Priododd y ddau ym 1927 a symud i fyw yn Aberafan lle dechreuodd Martyn ar ei weinidogaeth.

Roedd Aberafan ar y pryd yn ardal dlawd a difreintiedig iawn. Ond bu bendith arbennig ar weinidogaeth y gweinidog ifanc gyda llawer yn dod i roi eu ffydd yn Iesu Grist. Ysgrifennodd Bethan lyfr *'Memories of Sandfields'* sy'n sôn am y cyfnod arbennig hwn, gan adrodd hanes rhai o'r tröedigaethau rhyfeddol. Ceir un hanes am ddyn o'r enw William Thomas a adweinid yn lleol wrth yr enw 'Staffordshire Bill'. Roedd yn feddwyn ofnadwy ac un prynhawn Sul roedd wrthi'n yfed yn drwm pan glywodd rhywun ar fwrdd cyfagos yn dweud bod y gweinidog newydd wedi dweud bod gobaith i bawb. Penderfynodd yn y fan a'r lle y byddai'n mynd i'r capel y noson honno i glywed mwy. Cyrhaeddodd gât y capel ond doedd ganddo mo'r hyder i fynd mewn. Yr wythnos ganlynol pan gyrhaeddodd y capel clywodd y gynulleidfa'n canu a theimlodd ei fod yn rhy hwyr ac aeth adre eto. Y Sul canlynol, magodd ddigon o hyder i fynd mewn. Sylweddolodd fod Iesu Grist yn derbyn unrhyw un a ddeuai ato, a'r noson honno newidiodd bywyd William Thomas yn llwyr.

## EGLWYS DEWI SANT

**Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd**

Cynhelir dau wasanaeth trwy bodlediad, un yn y bore ac un gyda'r hwyr ar y Sul o hyd, er bod un gwasanaeth yn yr eglwys ei hun ac rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith a'r cyfraniadau a olyga ein bod yn derbyn y podlediadau gwerthfawr hyn.

**Yr Wythnos Fawr a'r Pasg**

Nos Iau Cablyd, gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn yr eglwys i gofio sefydlu Swper Yr Arglwydd ac ar derfyn y gwasanaeth, cafodd yr Allor ei diosg yn llwyr.

Trannoeth, ar Ddydd Gwener y Groglith, cafwyd gwasanaeth Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd tros y Zoom.

**Dydd Sul Y Pasg**

Yn ogystal â'r gwasanaeth boreol arferol trwy bodlediad, cynhaliwyd tri gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys. Mawr yw ein diolch i bawb a'i gwnaeth yn bosib cynnal gwasanaethau'r Wythnos Fawr a'r Pasg trwy lanhau'r eglwys wedi pob gwasanaeth, cymryd enwau'r addolwyr fel bod modd cadw'r pellter cymdeithasol gofynnol, gosod blodau a stiwardio.

**Coffi a Chlonc**

Bore Sadwrn, yr 17eg o Ebrill, cafodd dysgwyr y Gymraeg gyfle unwaith eto i wrando ac i ymarfer eu Cymraeg tros y Zoom. Bydd y nesa fore Sadwrn, y 15fed o fis Mai.

**Ffilmio**

Gofynnodd sefydliad sy'n darparu adnoddau digidol i rai sy'n byw â dementia i Eglwys Dewi Sant recordio cyfres syml o wasanaethau o'r Boreol a'r Hwyrol Weddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ei feddalwedd RITA a ddefnyddir mewn cartrefi gofal ac ysbytai ledled gwledydd Prydain. Oherwydd y cyfyngiadau, dim ond cynulleidfa o chwech a ganiateid ar gyfer y recordio.

**Gofal ein Gwinllan**

Dydd Sadwrn, y 24ain o Ebrill, yn yr ail Weminar mewn cyfres a drefnir gan yr Eglwys yng Nghymru i ddathlu ein treftadaeth Gymraeg, bu'r Athro E. Wyn James a'r Athro Christine James yn trafod Carol a Chwndid, Y Ficer Pritchard a Cannwyll Y Cymry.

## BETHEL, PENARTH

Hyfrydwch pur oedd gweld Ceri nôl yn ein hoedfa Zoom fore Sul, Ebrill 25, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty am ofal i drin ei anhwylder.

Tebyg iawn oedd ein hymateb wrth estyn croeso eto i Moyra sy'n un o'n pileri Zoom, hithau hefyd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty am archwiliad annisgwyl.

Anfonwn ein cariad cynnes at Eirlys, sy wedi dychwelyd gartref o'r ysbyty lle cafodd driniaeth i drwsio ysgwydd a dorrwyd pan gwympodd hi yn ei chartref. Cyflwr digon blin y bydd angen tipyn go lew o amser ac amynedd wrtho cyn gweld dyddiau gwell.

Daeth newyddion da iawn am Rhiannon sy wedi derbyn cynnig swydd i ymuno â staff cwmni Americanaidd o'r enw Medidata yn Llundain. Cyn derbyn y cynnig bu'n gweithio dan hyfforddiant gyda'r cwmni mewn parc gwyddoniaeth yng Nghaergrawnt. Treuliodd Rhiannon y flwyddyn ddiwethaf ym Mhrifysgol Caergrawnt yn gwneud ymchwil a arweiniodd at lwyddiant yn ennill gradd M.Phil. Llongyfarchiadau! Cwmni meddalwedd cyfrifiadurol yw Medidata. Bydd Rhiannon yn cynorthwyo cwmnïau fferyllol (cleientiaid Medidata) i gymhwyso meddalwedd mewn treialon clinigol.

Seiliwyd ein myfyrdodau ar hyd Yr Wythnos Fawr, Mawrth 28 (Sul y Blodau) i Ebrill 4 (Sul y Pasg) ar gyfraniadau gan Sianmeinir, Neville a Kevin, ynghyd â dau gyfraniad o'r un cyfnod y llynedd gan ein diweddar frawd Euryn Ogwen. Roedd yn braf iawn cael bod yn oedfaon Yr Ofalaeth ar Ddydd Gwener y Groglith ym Methel ac ar Sul y Pasg yn y Tabernacl, Y Barri.

Ar Suliau eraill Ebrill (11, 18, 25) buom dan ofal y gweinidog trwy gymorth Zoom. Seiliwyd ein myfyrdodau ar yr hanesion yn y Beibl am ymatebion ansicr, dryslyd y disgyblion i ddigwyddiad rhyfeddol, annisgwyl Atgyfodiad Iesu. Dathlwyd y Cymun ym mhob oedfa.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

**Y Canon William Isaac, Offeiriad Plwyf Eglwys Teilo Sant**

Gyda thristwch mawr y clywson ni, gynulleidfa Gymraeg Eglwys Teilo Sant, fod y Canon William Isaac wedi marw ar Sul y Blodau.

Ar ei wahoddiad e y daeth yr Offeren i'r eglwys hon dros bum mlynedd yn ôl ac fe gawsom groeso twymgalon ganddo. Byddai'n gadael popeth yn barod i ni ar brynhawn Sul ac yn aml yn taro heibio gyda chyfarchiad hwylus i wneud yn siŵr fod popeth yn iawn ar ein cyfer. Roedd e wrth ei fodd llynedd pan ddaeth ein tro ni i wahodd Dydd Gweddi'r Byd i Eglwys Teilo Sant. Rhoddodd bob cefnogaeth i ni, ac ymfalchïo yn y naws hyfryd a grëwyd yn y gwasanaeth. Roedd wrth ei fodd hefyd pan ddeuai cyfle i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gydag Offeren Gymraeg yn yr eglwys, ac aelodau eglwysi Cymraeg y ddinas yn ymuno â ni.

Canon Isaac oedd Swyddog Eciwmeniaeth yr Esgobaeth ac roedd ei ymrwymiad i gydweithio gydag eglwysi eraill yn rhan annatod o'i alwedigaeth. Ers ei farwolaeth, derbyniwyd sawl teyrnged iddo gan arweinwyr eglwysi fuodd yn cydweithio ag ef ar lefel genedlaethol sy'n tystio i'w gyfraniad at y gwaith. Byddwn yn gweld eisiau ei ofal gweddigar, ei gymeriad addfwyn a'i hiwmor direidus. Gorffwysed mewn hedd.

**Offeren Llanbadarn Fawr**

Eleni eto roedd rhaid dathlu Offeren Padarn Sant yn rhithiol ar y Sadwrn ar ôl y Pasg Bach. Mae hon yn achlysur bwysig yn ein calendr nawr, pan gawn gyfle i glywed yr Offeren yn eglwys Llanbadarn Fawr ar wahoddiad y Deon. Bydd plwyfolion Aberystwyth yn ymuno â ni sydd yn teithio o bob cwr i fwynhau'r Offeren yn yr adeilad hynafol a hardd. Ac mae'n rhan o'r wefr fod offeiriaid yr Eglwys yng Nghymru yn bresennol hefyd. Bydd rhaid edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf nawr, gan weddïo y gallwn fod yno gyda'n gilydd eto.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## BETHEL, RHIWBEINA

Ar Ebrill 4, bu cyfle i ni fwynhau gwasanaeth Sul y Pasg trwy gyfrwng Zoom ynghyd ag aelodau Salem. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein gweinidog y Parch. Evan Morgan. Ar fore Sul Ebrill 18, roedd neges arbennig gan Evan ar y thema 'Croesi'r Bont' - roedd rheswm o'r diwedd i ni fedru gobeithio bod amser gwell i ddod wrth i ni groesi i ochr draw'r pandemig.

Diolch i aelodau Salem am gynnal y gwasanaeth ar Ebrill 25 ac i Rosina Davies o Fethel am ei chyfraniad hi i'r gwasanaeth.

Drwy gydol y flwyddyn aeth heibio rydym wedi cael cyfle i fwynhau eitemau cerddorol bob bore Sul gan aelodau o Salem a Bethel. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau hyn yn fawr iawn.

Gan fod sefyllfa'r pandemig yn edrych yn fwy gobeithiol mae cynlluniau ar y gweill i ailgychwyn gwasanaethau yn y capel. Daw mwy o wybodaeth am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf ond tan hynny bydd y gwasanaethau Zoom yn parhau.

# Llwyddiant ar y Llethrau

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Harri a Megan Jones ar eu llwyddiannau ar lethrau'r Swistir yng nghystadleuaeth tymor 20/21 Ski Romande – i Harri ar ddod yn gyntaf, ac felly'n bencampwr Adran Bechgyn dan 11, ac i Megan ar ddod yn ail yn yr un bencampwriaeth yn Adran Merched dan 14. Fel mae'n digwydd, ffrind gorau Megan ddaeth yn gyntaf, ond gan fod y ddwy ohonyn nhw, yn sgil eu llwyddiannau, wedi'u dyrchafu o garfan B i garfan A yn Ski Romande, nid yw Megan yn rhy siomedig o ddod yn ail.

Ski Romande yw carfan holl sgiwyr mwyaf blaenllaw cantonau Ffrengig y Swistir sef Genefa, Vaud, Neuchâtel, Jura, Fribourg, Valais a Berne h.y. tua 25% o boblogaeth y wlad.

Byw yn y Swistir mae Megan a Harri ac felly maen nhw'n siarad Ffrangeg yn rhugl ynghyd ag Almaeneg y Swistir fel ail iaith. Maen nhw hefyd yn rhugl eu Cymraeg, a hynny er gwaethaf y ffaith nad ydyn nhw wedi cael diwrnod o addysg Gymraeg. Mae gan y ddau gysylltiadau cadarn â Chaerdydd am fod eu tad, Arwel Jones yn hanu o'r brifddinas ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Glantaf. Bu yntau yn Bencampwr Sgïo Cymru pan oedd e'r un oed â Harri.

*(gweler lluniau o Harri a Megan ar y clawr)*

# Cwmni'r Dysgwyr

## Cofio Lynda Newcombe

## Gwilym Dafydd





Cerys Paschali

### Cyfleoedd ar goll yn y Saithdegau

Daeth fy rhieni o gymoedd De Cymru. Roedd fy nhad yn dod o Faesteg ac ymfudodd ei dad-cu a'i fam-gu o Iwerddon; o bentref bach ar bwys harbwr lle gadawodd y llongau am Gymru. Daeth fy mam o Donypandy lle mae ei chwaer a'i brawd yn dal i fyw. Rhaid i fi fynd yn ôl i hen fam-gu ar ochr mam i ddod o hyd i siaradwr Cymraeg. Roedd fy mam-gu'n arfer mynd i'r capel gyda'i mam pan oedd hi'n blentyn felly roedd hi'n deall Cymraeg ac yn gallu canu'r emynau Cymraeg ond siaradodd hi ddim gair. Doedd dim gwersi Cymraeg pan oedd fy rhieni yn yr ysgol sbo. Yn waeth byth, wrth fyw yn ardal Caerdydd ar ôl priodi, roedd fy rhieni - a siŵr o fod llawer o'u cenhedlaeth - yn cadw eu pellter oddi wrth yr iaith. Roedden nhw'n ymdrechu mor galed am fywyd gwell, ymhell o'r meysydd glo a ffatrïoedd y Cymoedd, ac nid oedd y Gymraeg yn rhan o ddyfodol y gwnaethon nhw ei ddychmygu.

Pan es i i'r ysgol gynradd Saesneg ym maestrefi Caerdydd, roedd fy athrawon bron i gyd yn siaradwyr Cymraeg. Daeth y rhan fwyaf ohonyn nhw o Orllewin Cymru - dwi dal ddim yn siŵr pam. Daeth y rhai ifanca gyda'u gitâr a sandalau hipi i ganu am eifr gwyn, tra bod y ddwy athrawes hŷn, y ddwy o'r un enw, *Mrs Evans*, fel mam ieir gyda'u disgyblion. Gadawodd fy athro Blwyddyn 5 i redeg y fferm deuluol a daeth e'n ôl yn y gwanwyn i gneifio dafad yn y maes chwarae o flaen yr ysgol gyfan. Ron ni'n arfer cerdded, yn ddau wrth ddau, trwy'r pentref i'r eglwys ar waelod y bryn a dathlon ni wyliau cynhaeaf a Phasg, ond roedd Dydd Gŵyl Dewi Sant ond yn esgus i wisgo lan a chael hanner diwrnod bant.

Wrth symud i'r ysgol uwchradd dechreuais i ddysgu Cymraeg fel "iaith dramor", ysgwydd yn ysgwydd â Ffrangeg ac Almaeneg. Un haf roedd sôn am yr Urdd a teithiodd ychydig o blant dewr am wythnos i Langrannog – ond dim syniad gyda fi ar y pryd ble roedd Llangrannog. A bod yn berffaith onest, don i ddim wedi darganfod rhannau o Gaerdydd. Trefnodd yr ysgol ymweliad cyfnewid gyda phobl ifanc o Lydaw i ddysgu'u iaith a ffordd o fyw, ond roedd y plant yng ngweddill fy mamwlad yn ddirgelwch i fi o hyd. Ro'n i'n hoffi gwersi Cymraeg wrth gwrs, ond arhosodd yr iaith rhwng waliau'r ystafell ddosbarth pan es i adre. Yn nes ymlaen, daeth yn amser dewis pynciau ar gyfer fy lefel O. Dim ond dwy iaith gafodd eu caniatáu. Roedd y Gymraeg yn ymddangos yn llychlyd ac yn bell wedi'i dynnu o fy mywyd i'r dyfodol yn ninasoedd sgleiniog fel Paris a Berlin. Felly gollyngais i'r Gymraeg.

Cymerodd efallai ugain mlynedd i fi ddifaru. Ac ugain mlynedd arall i wneud rhywbeth amdano fe.

*Diolch yn fawr i Cerys Paschali o Dubai am anfon gair o brofiad. Mae Cerys mewn cysylltiad gydag Eirlys Davies, Radur sy'n helpu Cerys yn ei hastudiaethau Cymraeg. Ein diolch i'r ddwy ohonoch.*

### Cofio Dr Lynda Pritchard Newcombe



Tristwch oedd derbyn newyddion annisgwyl am farwolaeth Lynda ar fore Llun, 12 Ebrill. Roedd Lynda yn enw cyfarwydd fel tiwtor Cymraeg i oedolion ac fel awdur llyfrau yn y maes. Mae'n siŵr bod sawl un ohonom wedi cael golwg arall yn ddiweddar ar *Think Without Limits: you Can speak Welsh* (2009) a *SPEAK WELSH outside class YOU CAN DO IT!* (2016)

Fel esboniodd Lynda yn ei llyfr uchod a gyhoeddwyd yn 2009, cafodd ei geni yn Nowlais, Merthyr Tudful yn 1947 a dysgodd Gymraeg ac ieithoedd eraill yn effeithiol fel oedolyn yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae rhai ohonoch eisoes wedi sôn am ei hymweliad pan ddaeth draw atom i'r Awr Hapus ar fore Llun yn Yr Hen Lyfrgell lle cafodd hi gyfle i ddweud gair am y llyfr uchod a gyhoeddwyd yn 2016 a gwerthu a llofnodi ambell i gopi. Gair olaf Lynda yn ei llyfr oedd 'Daliwch ati a mwynhewch!'

Cofiwn amdani yn gwahodd dysgwyr ac eraill i'r cyfarfod carolau Cymraeg blynyddol a'r bwyd blasus yn neuadd Eglwys Efengylaidd Y Waun yng nghanol mis Rhagfyr. Bu hefyd yn gydlynydd cyfarfod misol ar nos Iau i ddysgwyr ac eraill lan llofft uwchben y siop goffi one2two ers rhai blynyddoedd.

Roedd Lynda yn hoff iawn o gathod fel clywsom ganddi llynedd yn y golofn hon, a diolch am ei chyfraniadau diddorol am bedwar mis yn olynol. Gweler rhifynnau Gorffennaf – Hydref 2020.

Rydym yn cydymdeimlo gyda Robert ei gŵr a diolch iddo am wahoddiad i ymuno mewn oedfa i ddiolch am fywyd a gwaith ei hoff Lynda yn Eglwys Efengylaidd Y Waun ar ddydd Mawrth, 4 Mai.

## Amser Jôc gyda Huw James

Roedd hi'n amser dechrau ei gwyliau haf o Roedean (ysgol i ferched crachach de Lloegr) ac roedd Penelope yn bwriadu mynd ar daith feicio yn Ffrainc.

Roedd ei mam yn poeni'n fawr am sut y byddai ei merch gariadus a gwerthfawr (er ei bod yn gapten tîm hoci'r ysgol) yn delio â holl beryglon Ffrainc ac yn arbennig y Ffrancwyr.

"Nawr Penelope, anwylaf, mae'n rhaid i chi fod yn ofalus iawn parthed y gwestai. Dylech chi bob amser fynnu archwilio'r ystafell cyn i chi archebu lle a RHOI PRAWF AR Y MATRES! Maent bob amser yn rhy denau a dylech fynnu cael dau!

"Fe wnaf, Mama. Ond atgoffwch fi beth yw'r gair Ffrangeg am fatres?"

"Matelas, anwylaf, matelas."

Pan ddaeth Penelope i'w stop cyntaf cafodd ei chyfarch yn gynnes gan berchennog yr auberge – dyn tewaidd â ffedog wen, fel René yn 'Allo 'Allo.

Gan gofio ufuddhau i gyfarwyddiadau Mama, gofynnodd am archwilio'r ystafell ac yna ceisio pwyso matres lawr a oedd yn denau iawn.

"Monsieur - bydd angen dau fatelots arnaf." (morwyr)

"Ond Mamselle, nid yw'n bosib."

"Ond dwi'n mynnu. Ni allaf gysgu oni bai fod gennyf ddau fatelots."

"Rwy'n wirioneddol flin ond ni allaf eich helpu."


Felly gadawodd Penelope mewn hwyliau drwg gan adael y perchennog i adrodd y stori i'w wraig wedi dod i'r casgliad ac edmygedd yn ei lais.

"Ah les Anglais – Quel pays maritime."

# Merched y Wawr
# Y Felin

Pennaeth Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd yw'r Dr Dylan Foster Evans. Mae'n aelod o Banel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg ac yn gadeirydd ar Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Croesawyd ef atom i siarad am bwnc sy'n agos at galon pob siaradwr Cymraeg yn y ddinas sef enwau lleoedd yng Nghaerdydd. O ble daeth yr enwau Cymraeg hyn?


Aeth ati i fwrw golwg ar y newidiadau i'r enwau ar hyd y canrifoedd gyda'r holl bobloedd a fu yma sef y Llychlynwyr, y Normaniaid, y Saeson a'r Gwyddelod a dangos bod presenoldeb cyson o'r Gymraeg i'w weld trwy hyn i gyd.




Mae'r enw Caerdydd yn hŷn na'r iaith Gymraeg mewn gwirionedd. Kagrotami oedd yr hen enw gwreiddiol o'r Frythoneg. Mae'r llun yn dangos datblygiad yr enw.

Wyddoch chi taw Crockertown oedd enw gwreiddiol Heol y Frenhines / Queen Street yn Oes Victoria? Gan fod gan bob tre arall ei Queen Street, bu tipyn o wrthwynebiad i'r newid gan y bobl leol, a'r haneswyr hefyd ar y pryd, ond fel y dywedodd Dylan Foster Evans, dydy enwau byth yn niwtral, maen nhw'n newid gyda theimladau, safbwyntiau a barn pobl yr oes.

Ymddangosodd yr enw Egglis Newith mewn bywgraffiad o hanes teulu Oliver Cromwell ym 1845. Dyna'r enw a ddefnyddiwyd bryd hynny, ond cafodd ei anwybyddu ac wedyn ei adfer. Mae'r enghraifft isod yn dangos beth ddigwyddodd mewn llai na degawd.


CYMDEITHAS CYMRY
WHITCHURCH
TYMOR 1971-72

CYMDEITHAS CYMRY
WHITCHURCH
(Yr Eglwys Newydd)
TYMOR 1973-74

CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYSNEWYDD
Rhaglen 1982/83
Cyfarfodydd yn Festri Bethel, Penlline Road,
Yr Eglwysnewydd

Diddorol iawn oedd clywed hanes a datblygiad enwau ein hardaloedd o ffynonellau hanesyddol cynnar iawn, Y Tyllgoed, Y Waun / Mynydd Bychan, Rhiwbeina, Gabalfa, Ystum Taf a mwy.

Soniodd am y chwarae rhwng y Saesneg a'r Gymraeg e.e. Windway Road Llandaf a aeth yn Heol y Wainway yn 1864. Y Saesneg oedd y gwreiddiol ond nid 'wind' oedd i fod ond 'wain' sef wagen, hwnnw wedi ei gywiro yn yr enw Cymraeg, ond wedyn doedd dim angen 'way' a 'heol' yn Heol y Wainway!

Mae haneswyr yn frwd dros gadw'r enwau gwreiddiol boed yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dywedodd bod angen talu sylw i waith y Dr Ceinwen Thomas o Nantgarw a oedd yn frwd iawn dros gadw enwau cynhenid yr ardal. Mae'r awydd i Gymreigio enwau yn gryf ac mae twrio i'r hanes yn hollbwysig cyn gwneud hynny rhag cael creadigaethau sy'n ddieithr i'r ardal.

Cawsom wibdaith yn llawn gwybodaeth ar hyd y canrifoedd gan y Dr Dylan Foster Evans ac fe hedfanodd yr amser. Noson ddifyr dros ben.

Fis nesa, 20fed o Fai, byddwn yn croesawu Tudur Dylan a John Gwilym Jones i'r Felin i drafod eu llyfr newydd, "Am yn ail" sy'n gasgliad o gerddi a lluniau.

# Amcangyfrif

## Stori fer gan John Emyr

Ers i Gaff ei gi ddarganfod y ci aur, bu Osian yn ansicr ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Ar y naill law, gwyddai y byddai'r arteffact yn werth ceiniog neu ddwy. Ar y llaw arall, roedd yr argyfwng COVID wedi taenu llen o ansicrwydd dros bopeth. Gobeithiai y câi wybod, yn y man, beth oedd orau iddo ei wneud â'r trysor. Yn y cyfamser, ble oedd orau i'w guddio? Go brin y byddai cwt y celfi na'r garej yn lleoedd diogel. Ac ni allai feddwl am unrhyw guddfan ddiogel yn y tŷ. Yna, un min hwyr mewn cyfarfod *Zoom*, clywodd hanes rhywun a gafodd y cyfrifoldeb o ofalu am wrthrych gwerthfawr arall, sef byrllysg arian (*mace*) Llantrisant. Cafodd hwnnw ei greu yn 1633, ac roedd yn hŷn na byrllysg San Steffan. Am rai diwrnodau, cyn ei drosglwyddo i ofal banc, roedd rhaid ei gadw mewn tŷ preifat. A'r man a ddewiswyd, ymhen hir a hwyr, oedd o dan y gwely. Doedd hynny ddim yn gymorth i berchennog y tŷ gael nosweithiau da o gwsg.



Dyna a wnaeth Osian yntau. Cuddiodd y ci aur o dan y gwely, ac ni chysgodd yn drwm am nosweithiau lawer. Ta beth, ymhen hir a hwyr, ac ar ôl holi a stilio ar y We, cafodd enw arbenigwr fyddai'n sicr o allu ei gynghori. Ac o'r diwedd roedd yn cychwyn ar ei daith i'w weld. Cyn cychwyn anfonodd neges destun at weithwyr cwmni Ocado i'w cyfarwyddo ynglŷn â'r amser gorau i ddod â'r neges fwyd wythnosol at y drws. Wrth weld ei feistr yn gadael y tŷ, cyfarthodd Gaff i fynegi ei ddymuniad i gael mynd yn y car i'r ddinas. Ond na. Ar ôl helynt yr olchfa geir, roedd rhaid i'r llamgi aros gartref.

Er i Osian weld arbenigwyr o'r blaen, byddai heddiw'n wahanol. Gan danio injan ei gar, gosododd ei law chwith ar y sgrepan ledr a orweddai ar y sedd wrth ei ymyl. Unwaith y câi bris am y ci aur, byddai pethau ar i fyny, byddai'r prif bryderon yn cilio a byddai'n llwyddo i gysgu'n well.

Wrth i'w gar agosáu at ganol y ddinas, syllodd ar fws mawr gwag a safai o'i flaen, y bibell wacáu yn chwythu ei mwg llyglwyd i'r amgylchedd. Yn y lôn gyferbyn, ymlwybrai SUV anferth, ei ffenestri wedi'u cau yn dynn. Gwisgai'r gyrrwr, sef gwraig uchel ei threm, wên uwchraddol, a symudai ei bysedd ar y dashfwrdd i rythm cerddoriaeth system sain y car.

Ymlusgai'r holl foduron gan fytheirio eu tocsinau wrth iddyn nhw agosáu dow-dow at ganol y ddinas. Gan flino braidd ar weld pawb yn eu swigen, dechreuodd Osian wrando ar raglen radio. Soniai'r cyflwynydd am y cyfnod ansicr presennol: pawb yn dyheu am gael mwy o ryddid, a nifer yn nerfus yr un pryd ynghylch peryglon ton arall o'r pandemig.

Tybed a fydd agwedd pobl yn gwella ar ôl i effeithiau gwaethaf y pla gilio, holodd y cyflwynydd, neu a fydd yr hen osgo di-hid yn parhau? Edrychodd Osian ar ei watsh fel petai'n disgwyl ateb i'r cwestiwn ar wyneb honno.

Beth bynnag am agwedd pobl yn gyffredinol, heddiw roedd ganddo job o waith o'i flaen – gorchwyl o bwys – a rhan gyntaf y gorchwyl hwnnw oedd cyrraedd swyddfa'r arbenigwr erbyn deg o'r gloch. Siawns na fyddai hwnnw'n rhoi amcangyfrif iddo o werth tebygol y ci aur. Ac yn y man byddai'r arian a ddôi i'w law yn help iddo gael mwy o sicrwydd ariannol a fyddai'n ei gwneud hi'n haws iddo ailafael yn ei hoffter o deithio i wledydd pell.

Yr eitem nesaf ar y radio oedd cyfweliad gyda rhywun oedd yn byw ac yn gweithio mewn cwm rhyw 25 milltir o Gaerdydd. Roedd anghenion trigolion Garndiffaith yn fawr, meddai, ac ar un tro roedden nhw bron ag anobeithio. Ac i bob golwg, doedd neb ar gael i'w helpu. Yn y man, fodd bynnag, fe ddaeth cymorth, ond nid o'r lleoedd disgwyliedig.

Soniai'r eitem nesaf am awydd pobl i gael gwyliau tramor wrth i'r wlad geisio dod allan o'r cyfnod clo. Cofiodd Osian am y gwyliau a gafodd, rai blynyddoedd yn ôl, yn India. Bu hynny'n brofiad gwerth chweil, ond go brin y câi deithio eto i'r wlad honno yn y dyfodol agos. Roedd y lluniau a welodd ar y teledu y noson gynt yn dal i'w anesmwytho. O leiaf roedd pethau'n dechrau gwella yng ngwledydd Prydain. Yna, fel bollt, cofiodd eiriau un o'r arbenigwyr meddygol: 'Cyn i'n gwlad ni fod yn ddiogel, bydd rhaid i bob gwlad fod yn ddiogel.'

Ar y pwynt hwn, wrth iddo barhau i ymgripian drwy'r traffig, cofiodd Osian eiriau'r dyn o ardal Garndiffaith. Bellach roedd tir diffaith yn fygythiad i lawer, a pha gymorth oedd ar gael?

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd* ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Llyfrau Llafar Cymraeg ar Ffonau Clyfar am y Tro Cyntaf

Am y tro cyntaf mae modd gwrando ar ddetholiad o lyfrau Cymraeg ar apiau Audible ac iTunes. Mae'r Lolfa newydd ryddhau dwsin o lyfrau amrywiol Cymraeg y gellir eu mwynhau heb orfod agor llyfr na phrynu CD. Mae'r chwyldro ym mhoblogrwydd ffonau clyfar wedi arwain at dwf aruthrol yng ngwerthiant llyfrau llafar electronig drwy'r byd, ond hyd yn hyn araf bu'r ymateb yn Gymraeg.

Dywedodd Garmon Gruffudd ar ran Y Lolfa:
"Fel gwasg rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r ddiffyg darpariaeth o lyfrau llafar Cymraeg ar Audible ac iTunes ers tro ac o'r diwedd rydym wedi mynd ati i drio gwneud iawn am hyn. Am sawl rheswm gall gwrando ar lyfr fod yn brofiad mwy dymunol i rai na darllen llyfr. Yn un peth dwi'n credu bod pobl am orffwys eu llygaid ar ôl bod yn llygadrythu ar sgriniau drwy'r dydd. Ein bwriad yw cyhoeddi rhagor o lyfrau llafar dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod."

Mae'r datblygiad yma yn dilyn cyhoeddi'r cofiant Cymraeg cyntaf ar lwyfan Audible fis Tachwedd llynedd, sef hunangofiant yr arloeswr Huw Jones - *Dwi isio bod yn...* a recordiwyd yn arbennig ar gyfer y pwrpas yn addas iawn yn stiwdio Sain, sef un o'r cwmnïau a sefydlwyd gan Huw Jones. Recordiwyd nifer o lyfrau eraill gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru ac addaswyd rhai o CDau sydd eisoes ar gael.

Dywedodd Arwel Jones, Pennaeth Datblygu Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru:
"Rydym yn croesawu penderfyniad Y Lolfa i gyhoeddi amrywiaeth o lyfrau llafar newydd ac yn falch o gefnogi'r fenter. Mae'n hynod bwysig sicrhau bod gan ddarllenwyr Cymraeg ddewis da o fformatau gwahanol ac fel Cyngor Llyfrau rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid ar draws Cymru er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach."

Ymhlith y llyfrau llafar Cymraeg sydd ar gael ar Audible ac iTunes mae *Llyfr Glas Nebo* (Manon Steffan Ros), *Pantywennol* (Ruth Richards), *Gwreiddyn* (Caryl Lewis), *Ymbelydredd* (Guto Dafydd) ac *I Botany Bay* (Bethan Gwanas).

---

# Cymunedau Caerdydd

Mae *Gwyddoniadur Cymru* yn glamp o gyfrol llawn gwybodaeth a dwywaith mor drwm â chopi du organ emyn-donau *Caneuon Ffydd*!

Ceir dros fil o dudalennau ynddo a mwy na 350 o gyfranwyr – nifer ohonynt wedi neu yn byw yn nalgylch papur bro *Y Dinesydd*.

Mae degawd bellach wedi gwibio heibio ers cyhoeddi'r *Gwyddoniadur* gwerthfawr hwn yn 2008 gan Wasg Prifysgol Cymru.

Os trowch i dudalennau 113-120 cewch ddarllen am ddinas a sir Caerdydd. Dywedir bod 305,353 o drigolion. Faint ohonom sydd yma ddegawd yn ddiweddarach? 360,000 a mwy.

**Cymunedau Caerdydd**

Dyma her i rai ohonoch ddarllenwyr *Y Dinesydd*. Heb edrych fedrwch chi enwi'r 32 cymuned sy'n rhan o ddinas a sir Caerdydd?

Ewch i chwilio am bapur a phen, ceisiwch nodi'r 32 yna dewch yn ôl i ddarllen mwy!

Wrth syllu ar yr enwau ar dudalen 117 ymddengys eu bod i gyd yn enwau Cymraeg heb law am un sef Trowbridge.

Os hoffech dderbyn ac ymateb i her arall, heb edrych ar dudalen 117, ceisiwch lunio rhyw fath o fap a nodi'r 32 enw a sut maen nhw'n ffinio â'i gilydd.

Rydw i'n byw yn Yr Eglwys Newydd ers 1988 a gwn yn dda bod Rhiwbina i'r dwyrain, Tongwynlais i'r gogledd a Radur / Treforgan i'r gorllewin. Nid yw Llwynbedw (Birchgrove) yn un o'r 32 enw, ond mae Gabalfa a'r Waun Ddyfal neu'r Mynych Bychan yno.

Sylwoch chi i fi gyfeirio at Riwbina yn hytrach na Rhiwbeina. Dywed yr Athro Wyn James mai Rhiwbina yw'r ffurf Gymraeg wreiddiol ac os sylwoch chi ymhellach fe gafwyd sawl Rhiwbina yn lle Rhiwbeina yn rhai o ôl-rifynnau'r *Dinesydd.* Wn i ddim beth fydd ymateb golygydd y rhifyn hwn sy'n byw yn Rhiwb… !

**Cymuned Y Castell**

Cymuned Y Castell sef rhif 2 o'r rhestr yw'r lleiaf o ran poblogaeth, dim ond 189 o drigolion.

'Dyma galon yr hen dref, a chynhwysa'r rhan helaethaf o hen blwyf Sant Ioan. Ymestynna o'r Gored Ddu (Blackweir) hyd arglawdd y rheilffordd i'r de o Heol Eglwys Fair, ac oddi mewn iddi saif Parc Biwt, Parc Cathays, y castell, Stadiwm y Mileniwm a chanol masnachol y ddinas.'

Wrth graffu ar y 32 enw sylweddolaf nad ydw i wedi bod yn agos i rai o'r cymunedau hyn ers blynyddoedd. Gallaf yn sicr enwi Llys-faen, Llanrhymni, Tredelerch a Hen Laneirwg. Beth tybed amdanoch chi?


Dyma gwestiwn diddorol arall. Sawl copi o'r *Dinesydd* tybed sy'n cyrraedd y 32 cymuned yn ein prif -ddinas? Rwy'n credu fy mod yn gywir wrth ddweud bod o leiaf un copi ar gael ym mhob llyfrgell yng Nghaerdydd a threfi Y Fro.


**Cymunedau Bro Morgannwg**

Rhaid cofio hefyd bod dalgylch *Y Dinesydd* yn cynnwys Y Fro. Os ewch chi yn ôl i'r *Gwyddoniadur* a gweler paragraff am Fro Morgannwg ar dudalen 94. Cyfanswm y trigolion (2008) oedd 119,292 mewn 27 o gymunedau. Yn naturiol rydw i'n gyfarwydd â'r Barri, Penarth, Dinas Powys ac ati ond does gen i fawr o syniad am rai o'r cymunedau llai megis rhif 26 Tregolwyn a'r Wig rhif 27.

*Gwilym Dafydd*

## Rhif: 213




### Ar Draws

1. Gweld llaid ymhell ac agos (4)
3. Draw yng nghanol y cacwn (3)
5. Gwneud yn llai o'r pwyslais ar ddilledyn (4)
9. Mae'n tywyllu ar Sion (4)
10. 'Dyma Feibil annwyl Iesu,
 Dyma rodd ----- Duw' (RD) (8)
12. Iesu, difyrrwch f'enaid drud,
 Yw ----- ----- ----- -----' (WW) (5,2,2,3)
14. 'Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw,
 ----- ----- o'i le, nid ie a nage yw' (EJ) (2,4)
15. 'Colli tannau'r delyn gywrain,
 Ac yn eu lle cael ----- brain' (HW) (6)
18. Gall swyddfa Alun fod yn anffortunus (12)
21. Ticedi i weld rhan o'r tŷ yn tanio (8)
22. Llifeirio yn llai ond eto'n rhedeg (4)
23. Tamaid i'w drwsio yn Lloegr (4)
24. Ar yn ail mae Elgar yn bod yn feiddgar (3)
25. Y cyntedd i'r Rhondda (4)

### I Lawr

1. Oes posib mai llain gefn yw'r lle yma? (8)
2. Cant yn blysio am droi'r sur yn esmwyth (7)
4. Curo y clêr du o gwmpas (6)
6. Safle'r arian (3,2)
7. Cael blas wrth ddechrau sôn am wythnos rydd (4)
8. Syfled Dai i greu cymdeithas (9)
11. Y foment fawr aeth y fuwch bant (9)
13. 'Eist hebio i'm fel mellten goch,
 Â'th dafod ----- ar dy foch' (IDH) (8)
16. Gwnaeth neb godi i'w glodfori (7)
17. '----- ----- ddyry cychwyn' (1,5)
19. Yr hunan dos at yr offeiriad (5)
20. Cyflwr yr eiddo (4)

**Enillydd Croesair Rhif 211**
**Arwel Owen, Cyncoed, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 211**
**Ar Draws** 1. Llaca 8. Llanymddyfri 9. Prynhawn 10. Odyn 12. Y gwaed 14. Afraid 15. Arswyd 17. Diwallu 18. Ogwr 19. Sofrenni 21. Gyfiawnder 22. Ofni

**I Lawr** 2. Anhrugarog 3. Allan 4. Anffawd 5. Amanda 6. Dynol-ryw 7. Llion 11. Y winllan wen 13. Anwaraidd 16. Dysgwr 17. Difodi 18. Osgo 20 Effro

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 6 Mehefin, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

*Annwyl olygydd,*

Tybed oes rhai o'ch darllenwyr awydd sialens newydd neu'n chwilio am ychydig o waith ac eisiau gweithio fel tiwtor Cymraeg?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eisiau casglu cronfa o enwau pobl fyddai â diddordeb gweithio fel tiwtor, gyda'r oriau gwaith yn gallu amrywio o ddwy awr i dros 20 awr yr wythnos.

Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur o wersi ar-lein i'r Ganolfan, ac mae 'na alw parhaus am diwtoriaid i ddysgu'r miloedd o oedolion sy'n cofrestru ar gyrsiau bob blwyddyn.

'Dyn ni'n chwilio am bobl ym mhob rhan o Gymru i ymuno gyda'r tîm o diwtoriaid gwych sydd eisoes yn gweithio gyda ni. Yn ddelfrydol, 'dyn ni'n chwilio am brofiad dysgu blaenorol, ond y nodweddion hollbwysig ydy brwdfrydedd ac ymroddiad at y Gymraeg.

Bydd y Ganolfan yn casglu enwau pobl sydd â diddordeb, i'w rhannu gyda'i darparwyr cyrsiau, fel y gallan nhw gysylltu'n uniongyrchol i drafod cyfleoedd gwaith posibl. Mae tiwtoriaid yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y darparwyr.

Mae'r dysgwyr yn dysgu ar bum lefel wahanol – o gyrsiau Mynediad ar gyfer dechreuwyr, i gyrsiau Uwch a Hyfedredd ar gyfer y rheiny sy'n siaradwyr profiadol. Mae'r gwersi i gyd yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd canran o'r dosbarthiadau yn dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb mewn lleoliadau ar draws Cymru pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

I gofrestru eich diddordeb, ewch i: https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/recriwtio-tiwtoriaid/

Diolch yn fawr a chofion gorau,

*Helen Prosser*

Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Bydd ceisiadau am y pedwerydd grant o dan y Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth yn agor "o ddiwedd Ebrill 2021" yn ôl gwefan y Llywodraeth. Bydd hyn yn seiliedig ar 80% o gyfartaledd elw. Ceir y manylion yn llawn yma: https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-self-employment-income-support-scheme.cy
2. Os ydych chi'n gweithio fel contractwr llawrydd, efallai bydd y rheolau IR35 newydd a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2021 yn cael effaith arnoch chi. Mae'r rheolau hyn wedi rhoi mwy o faich ar gwmnïau sy'n cyflogi contractwyr i asesu a ddylid eu trin fel gweithwyr ar y gyflogres. Mae'r Swyddfa Dreth wedi cyhoeddi teclyn ar-lein a all helpu unigolion i asesu effaith posib y canllawiau IR35 newydd: https://www.gov.uk/guidance/check-employment-status-for-tax
3. Yn dilyn y Gyllideb ym mis Mawrth, mae sawl benthyciwr ar y stryd fawr wedi lansio morgais 95%. Nod rhain yw helpu pobl ifanc i brynu tai. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymchwilio'r opsiynau morgais yn fanwl i ddarganfod y bargeinion gorau.
4. Byddwch yn wyliadwrus o e-byst a thaflenni sy'n hysbysebu am gyfleoedd i fuddsoddi mewn cyrchfannau gwyliau. Yn aml iawn, dyw'r enillion addawedig ddim yn cynnwys y ffioedd sylweddol sy'n daladwy ac maent yn seiliedig ar gyfraddau deiliadaeth afrealistig.
5. Mae'r Swyddfa Dreth wedi lansio ap sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad i'w holl ddata treth incwm mewn un lle. Er enghraifft, os buoch chi'n gweithio i sawl cyflogwr yn ystod y flwyddyn dreth, ond rydych wedi colli'r P60 neu P45, dylai'r ap gynnwys yr holl wybodaeth yma. Ceir y manylion yn llawn yma: https://www.gov.uk/government/publications/the-official-hmrc-app/the-free-hmrc-app

***Cwestiynau Huw ac Aled:*** *Dwi'n weithiwr llawrydd yn y celfyddydau ac wedi gweld gostyngiad sylweddol yn fy incwm dros y flwyddyn ddiwethaf. Oes cymorth penodol ar gael i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau?*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol i weithwyr llawrydd yn agor ddechrau mis Mai. Does dim manylion wedi cael eu cyhoeddi hyd yn hyn ynglŷn â'r amodau na'r swm ariannol fydd ar gael. Bydd y manylion yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ganlynol maes o law: https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni drwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

## Y Mentrau'n taflu Cip yn ôl … a Chip ymlaen

Daeth haul y gwanwyn i'n cyfarch yn y Barri wrth i ni fwynhau gwledd gerddorol ac arlwy o weithdai a sgyrsiau amrywiol a chyffrous fel rhan o ŵyl ddigidol Gŵyl Fach Y Fro. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr a'r union beth i roi blas i ni o'r normalrwydd sy'n prysur ddychwelyd wrth i ni edrych tua'r haf a dychweliad rhai o'n gweithgareddau wyneb yn wyneb, a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'n cynnig digidol eang.

Bydd ein gwersi iaith ar-lein i blant ac oedolion yn parhau dros yr wythnosau nesaf, ynghyd â Sgwrs Y Mis, Clwb Cerdd, Clwb Cacennau newydd, sesiynau Dawns a Drama i'r rhai bach a llawer, llawer mwy! Ewch i'n gwefan ar gyfer manylion llawn ac i archebu eich lle.

Mae ein sesiynau ffitrwydd awyr agored eisoes wedi dechrau, gyda Bŵtcamp Penarth yn cadw trigolion y Fro yn symud tra bo Bygi Heini wedi profi'n ffordd boblogaidd iawn o gael cymdeithasu a chyfarfod mamau newydd eraill ynghyd â chael ymarfer corff yn awyrgylch hyfryd caeau Pontcanna. Ein bwriad hefyd yw rhoi cyfle i'r plant gael mwynhau yn yr awyr agored, gyda sesiynau BWRLWM yn dychwelyd ar gyfer gwyliau'r Sulgwyn mewn nifer o leoliadau o amgylch y ddinas a'r Fro (cadwch lygaid ar ein cyfryngau cymdeithasol am ragor o wybodaeth am y sesiynau bywiog hyn!)

Wrth gwrs, allwn ni ddim sôn am fwynhau heb grybwyll Tafwyl! Bydd yr ŵyl – sydd yn bymtheg oed eleni – yn dychwelyd i'r Castell ar y 15fed o Fai, gydag artistiaid lu yn darparu adloniant cerddorol, ynghyd â gwledd o sesiynau ar gyfer pob oedran yn ardaloedd (digidol!) Llais, Lles a BWRLWM! Bydd Marchnad Tafwyl - ar Facebook - ar agor unwaith eto hefyd, gyda chyfle i ddarganfod a phrynu cynnyrch unigryw gan wneuthurwyr a chwmnïau annibynnol lleol.

Bydd posib gwylio hyn oll ar Fai'r 15fed ar ap neu wefan AM, lle gallwch chi hefyd ddal fyny gyda chynnwys Gŵyl Fach Y Fro nawr!

# Bwyd Merch y Ddinas



## Jinx Treganna

**Lowri Haf Cooke**

Dros y flwyddyn ryfedd a fu, datblygodd un man yn atyniad i mi, sef y farchnad ffermwyr ar lannau'r Taf a gynhelir bob bore Sul. Pan oedd pobman arall yn dawel, roedd 'na fwrlwm yn yr awel, wrth i bobol y ddinas fwynhau un man cyfarfod, am baned a chlonc - ac i gefnogi busnesau lleol.

Dros benwythnos y Pasg, roedd Caerdydd fel y bedd, gyda nifer wedi neidio at y cyfle i deithio ymhellach na 5 milltir ar benwythnos braf o wanwyn. Ond ces i bleser pur o grwydro strydoedd gweigion Caerdydd, ar fy ffordd i ymweld â fy hafan fwyd wythnosol. A gyda mis yn llawn pen-blwyddi, ces fuddsoddi mewn rhoddion di-ri; teisen groes o fecws Pettigrew, bocs o felysion Fwdge, a chnau almwn o Sisili yn eu plith. Ces i hefyd fagiad ffres o ddail salad Parc Biwt, a photel o Jin Treganna – oedd yn enw newydd i mi.







Wyneb cyfarwydd wnaeth fy nghyfarch wrth y stondin a dweud y gwir, yr actor o Gaernarfon, Mark Flannagan (neu gymeriad Jinx o *Pobol y Cwm* i chi a fi). Ces i'r pleser o'i holi ar gyfer llyfr *Pobol y Cwm – Pen-Blwydd Hapus 40* yn 2014, pan oedd perthynas Jinx a Ffion (Bethan Ellis Owen) ar ei mwyaf tanllyd. Os cofiwch chi, ar y pryd, datguddiwyd nad Jinx oedd tad Arwen, eu merch fach, a blwyddyn wedi hynny cefnodd Jinx ar Gwmderi... ond tybed am ba hyd? ('Gwyliwch y gofod' yw'r oll ddweda i!)

Cynllun Mark ar y pryd oedd codi'i bac a theithio'r byd, ond (fel mae bywyd!) cyfarfu â'i bartner yn Chapter, a magu teulu yn Nhreganna! Cafodd hefyd rannau actio amrywiol, gan gynnwys y brif ran yn ail gyfres ddirgelwch *35 Diwrnod* (chi'n cofio, y gyfres a osodwyd mewn swyddfa yswiriant yng Nghaerdydd, gyda Saran Morgan a Rhodri Evan, ymysg eraill – un o'r goreuon yn fy marn i). Ond ers 2017, datblygodd ei ddiddordeb mewn distyllu jin yn yrfa ddisglair i'r actor sydd bellach yn byw gyda'i deulu yn San Siorys, Bro Morgannwg.

Yn wir, mae e'n distyllu'r jin trawiadol yn ei garej pwrpasol – ac fel distyllwr proffesiynol, gyda'r tystysgrifau angenrheidiol, gallwch ddibynnu ar Jin Treganna i gynnig chwa o soffistigeiddrwydd, a bach o hwyl, diolch i bresenoldeb Billy y morlo – un o ffigurau enwoca'r ddinas - ar y logo. Ond serch hwyl a miri'r morlo, mae'r distyllu'n llawer mwy na hobi i'r perfformiwr, diolch i gymorth busnes a strategaeth Cywain, a chryn uchelgais ar gyfer y gwirodyn. Ac yn ogystal â gwerthu ym marchnad wythnosol Glanyrafon, cewch weld y Jin Sych Llundain chwaethus ar silffoedd deli Wally's yn yr Arcêd Brenhinol, Dusty Knuckle a Canna Deli.

Gyda'r gwanwyn wedi hen ddeffro, sawrwch Jin Treganna mewn coctel clasurol, fel Gimlet, Tom Collins a Martini, neu ar ei ben ei hun dros rew, neu gyda thonig. Fel nifer o arbenigwyr, mae Mark yn ffafrio dŵr tonig 'Môr y Canoldir' Fever Tree, sy'n asio'n dda â nodau peraidd llysiau'r angel, merywen a choriander.

Ond y newyddion diweddaraf ydy llwyddiant ysgubol dilyniant ffrwythog y jin sych clasurol. Yn gynharach y mis hwn, lansiodd Mark ei ail ddiod, sef Jin Treganna blas Rhosmari ac Oren Gwaed. Yn wir, gwerthwyd y cyflenwad cyntaf mewn llai na diwrnod. Mewn marchnad jin sy'n orlawn o flasau cyfarwydd fel halen y môr neu riwbob, mae'n gyfuniad newydd sy'n bendant yn denu'r chwilfrydedd. Partner Mark, Rachel, wnaeth sbarduno'r cyfosodiad rhwng y ffrwyth sitrws chwerwfelys a rhosmari glaswelltog yn wreiddiol. Gyda thonig, mae'n flas hyfryd o hafaidd, sy'n dwyn delweddau o wyliau retro ar arfordir yr Eidal i'r meddwl. Ond ystyriwch ei arllwys dros sorbet chwerwfelys (oren, grawnffrwyth neu riwbob) am bwdin go arbennig. Gyda ffrindiau yn yr ardd ar ddiwrnod braf o haf, dymunwch iechyd da i Mark, a Jinx Treganna!

Jin Treganna www.tregannagin.co.uk

*Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke, £9.99 (Gwasg Gomer)